
Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# PROFFIL IAITH CEREDIGION

**Wedi'i pharatoi gan y Tîm Ymchwil a Pherfformiad ar ran y Gwasanaeth Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant Cyngor Sir Ceredigion**



**Tachwedd 2025**

# Tabl Cynnwys

1.0 Cyflwyniad ..... 4
Cefndir ..... 4
COVID-19 ..... 4
1.1 Cymru: Trosolwg ..... 5
1.2 Niferoedd a Chanrannau ..... 5
1.3 Symudedd Poblogaeth ..... 9
1.3.1 Tyfiant Poblogaeth wedi'i gyrru gan Mudo ..... 10
1.3.2 Sgiliau Iaith Cymraeg Ymhlith Mewnfudwyr ..... 11
1.3.3 Allfudiad Siaradwyr Cymraeg ..... 11
1.3.4 Poblogaeth sy'n Heneiddio a Throsglwyddo Iaith ..... 11
1.4 Sgiliau Iaith ..... 11
1.5 Casgliad ..... 12
2.0 Ceredigion: Trosolwg ..... 12
2.1 Y Sefyllfa Leol ..... 15
2.2 Sgiliau Iaith ..... 16
2.3 Symudedd Poblogaeth ..... 17
2.4 Hunaniaeth Genedlaethol ..... 18
2.5 Iaith a Chyflogaeth ..... 19
3.1 Trosglwyddo Iaith ..... 22
3.2 Mudiad Meithrin ..... 24
3.3 Gwasanaethau gofal plant ..... 26
4.0 Addysg Cyfrwng Cymraeg ..... 27
4.1 Trosolwg ..... 27
4.2 Ysgolion Cynradd ..... 28
4.3 Ysgolion Uwchradd ..... 30
4.4 Addysg Pellach ..... 31
4.4.1 Coleg Ceredigion ..... 31
4.4.2 Tîm Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ..... 31
5.0 Gweithgareddau Plant ac Ieuenctid ..... 35
5.1 Ffermwyr Ifanc Ceredigion ..... 35

5.2 Urdd Gobaith Cymru ........ 35
5.3 Cered: Menter Iaith Ceredigion ........ 36
5.4 Theatr Felinfach ........ 36
5.5 Clybiau Chwaraeon ........ 36
6.0 Cymraeg i Oedolion ........ 37
7.0 Gweithgareddau Cymunedol Cymraeg ........ 38
7.1 Cered: Menter Iaith Ceredigion ........ 39
7.2 Theatr Felinfach ........ 39
7.3 Merched y Wawr ........ 40
7.4 Yr Hoelion Wyth ........ 40
7.5 Cylchoedd Cinio ........ 41
7.6 Papurau Cymunedol ........ 41
7.7 Eisteddfodau Lleol ........ 41
7.8 Timau Talwrn y Beirdd ........ 41
7.9 Gwyliau Lleol ........ 42
7.10 Drama Cymraeg ........ 42
7.11 Cyfryngau Cymraeg ........ 42
8.0 Sefydliadau Cymraeg ........ 43
9.0 I Gloi ........ 44
9.1 Dadansoddiad SWOT 2025 ........ 44
Atodiad 1 ........ 47
Atodiad 2 ........ 49

## Yng Ngheredigion…

**45.3% o boblogaeth 3+ Ceredigion yn medru siarad Cymraeg.**

**71.8% o bobl 3–15 mlwydd oed yn siarad Cymraeg.**

**42.4% o bobl 16–64 mlwydd oed yn siarad Cymraeg.**

**39.9% o bobl 65+ mlwydd oed yn siarad Cymraeg.**

**43.6% efo dim sgiliau Cymraeg.**

**54.4% o'r boblogaeth wedi'i eni yng Nghymru.**

**46.7% o breswylwyr yn uniaethu fel "Cymraeg yn unig".**

**49.6% o'r gweithlu yn siarad Cymraeg.**

# 1.0 Cyflwyniad

## Cefndir

Mae'r papur hwn yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o broffil yr iaith Gymraeg yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar Geredigion yn arbennig.  Mae'n dwyn ynghyd amrediad o ddata a dirnadaeth er mwyn cynorthwyo gweithgarwch cynllunio, datblygu ac ymgysylltu cymunedol ynghylch y defnydd o'r Gymraeg a'i hyrwyddo.

Yn gyntaf, mae'r adroddiad yn amlinellu'r trosolwg cenedlaethol, gan fanteisio ar ddata y cyfrifiad i archwilio tueddiadau o ran siaradwyr Cymraeg, symudedd y boblogaeth a ffactorau sy'n dylanwadu ar newidiadau gydag amser.  Yna, mae'n ystyried Ceredigion yn benodol, gan gynnig proffil lleol manwl, gan gynnwys data ar lefel ward, newidiadau demograffig, sgiliau Cymraeg a chyflogaeth. Gan gydnabod pwysigrwydd trosglwyddo'r iaith yn gynnar, mae'r adroddiad yn dadansoddi trosglwyddiad iaith ar yr aelwyd, rôl Mudiad Meithrin, ac argaeledd gwasanaethau gofal plant cyfrwng Cymraeg.  Yn ogystal, caiff y llwybr cyfrwng Cymraeg o'r cynradd ac ymlaen i addysg bellach ei archwilio.  Y tu hwnt i rôl addysg, mae'r adroddiad yn ystyried pwysigrwydd cymuned ehangach yr iaith Gymraeg ymhlith plant, phobl ifanc ac oedolion gan gynnwys diwylliant, y celfyddydau a chyfleoedd chwaraeon.

Yn gyffredinol, nod y papur yw cynnig darlun crwn o'r defnydd o'r Gymraeg, ei throsglwyddiad a chymorth ar draws gwahanol leoliadau, gan helpu i gyfrannu at waith cynllunio ar gyfer y dyfodol a buddsoddiad mewn gweithgarwch i hyrwyddo'r iaith yn lleol.

## COVID-19

Ystyrir mai'r Cyfrifiad yw ffynhonnell awdurdodol gwybodaeth am yr iaith Gymraeg. Mae pob cyfrifiad yng Nghymru er 1891 wedi cynnwys cwestiwn am sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, wrth i ni fwrw golwg ar y data o Gyfrifiad 2021, mae'n bwysig cydnabod mai cynnig cipolwg o'r boblogaeth ar un adeg y mae canlyniadau'r Cyfrifiad (ar 21 Mawrth 2021) yn ei wneud.

Yn arbennig, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19, sydd wedi effeithio ar y boblogaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd.  O ganlyniad i'r pandemig roedd cyfnodau clo, dysgu o bell i blant, ac roedd nifer o bobl yn gweithio gartref.  Er ei bod yn anodd mesur hyn, mae'n debygol bod y pandemig wedi cael effaith ar sut wnaeth unigolion adrodd eu sgiliau Cymraeg yng Ngheredigion ac ar draws Cymru gyfan.  O'r herwydd, ystyrir ffynonellau eraill megis Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg

Poblogaeth Blynyddol er mwyn gwella dilysrwydd a dibynadwyedd y casgliadau a wnaethpwyd.

## 1.1 Cymru: Trosolwg

Ar yr olwg gyntaf, roedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn siomedig i gefnogwyr yr iaith Gymraeg. Er gwaethaf degawd o weithredu a gwaith cynllunio iaith helaeth mewn nifer o ardaloedd, mae'r niferoedd a'r ganran a adroddodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng, o'i gymharu â Chyfrifiad 2011.

Roedd y Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg ar y pryd, Jeremy Miles, yn cydnabod bod y canlyniadau yn "*siomedig ac nad oeddent yr hyn yr oeddem yn dymuno ei weld*". Yn ogystal, amlygwyd y ffaith y gallai'r pandemig fod wedi effeithio ar y ffordd roedd unigolion wedi asesu eu sgiliau Cymraeg nhw neu sgiliau Cymraeg eu plant.

Fodd bynnag, ceir rhesymau dros fod yn obeithiol. Mae ffynonellau data eraill, megis yr Arolwg Poblogaeth Blynyddol, yn dynodi cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hefyd yn bwysig nodi, adeg Cyfrifiad 2021, bod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei lle am lai na phedair blynedd, ac roedd pandemig COVID-19 wedi amharu ar gryn dipyn o'r cyfnod hwn.

Er gwaethaf y tro anffodus, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i'w nod o sicrhau 1 miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ac mae'n teimlo'n obeithiol am y cynnydd i'w sicrhau dros y ddegawd nesaf.

## 1.2 Niferoedd a Chanrannau

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd nifer y bobl tair oed a throsodd a oedd wedi adrodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng o tua 562,000 yn 2011 i 538,300 yn 2021, gostyngiad o tua 23,700. Roedd canran y boblogaeth a adroddodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi gostwng hefyd o 19.0% i 17.8%. Mae hyn yn cynrychioli canran isaf y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a gofnodwyd erioed mewn cyfrifiad, er, roedd y rhif a gofnodwyd yn 2021 yn parhau i fod yn uwch na'r nifer a gofnodwyd yng nghyfrifiad 1981 a 1991.

Fel yr adlewyrchir yn Nhabl 1 drosodd, mae cymryd golwg fanylach ar y data yn datgelu bod tua 74% (17,600) o'r dirywiad cyffredinol yn y gallu i siarad Cymraeg ar draws Cymru yn cael ei briodoli i niferoedd yr unigolion yn y grŵp oedran 5-15 oed yn 2021, o'i gymharu â'r niferoedd yn y grŵp hwn yn 2011, a oedd lawer yn is. Hwn oedd y gostyngiad canrannol mwyaf (6.0 pwynt canrannol) o ran unrhyw grŵp oedran.

Mewn cyferbyniad, gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng ngrwpiau oedran 20-44 a 65-74. Er gwaethaf y cynnydd hwn, roedd y gostyngiad yn nifer y

siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran eraill iau a hŷn (45-64 oed a phobl 75 oed a throsodd) yn gwrthbwyso hyn.

Tabl 1: Nifer a chanran o pobl tri mlwydd oed a drosodd yng Nghymru sydd yn medru siarad Cymraeg, yn ôl grŵp oedran, 2011 i 2021.


| Grŵp Oedran | 2011 | | 2021 | | Gwahaniaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***%*** | ***Nifer*** | ***Pwynt %*** |
| 3-4 | 16,500 | 23.3 | 11,900 | 18.2 | -4,500 | -5.2 |
| 5-15 | 152,300 | 40.3 | 134,700 | 34.3 | -17,600 | -6.0 |
| 16-19 | 43,700 | 27.0 | 38,800 | 27.5 | -4,800 | 0.5 |
| 20-44 | 150,700 | 15.6 | 153,800 | 16.5 | 3,000 | 0.9 |
| 45-64 | 107,900 | 13.3 | 107,300 | 13.0 | -600 | -0.2 |
| 65-74 | 45,100 | 15.0 | 45,900 | 12.8 | 800 | -2.2 |
| 75+ | 45,800 | 17.5 | 45,800 | 15.1 | 0 | -2.4 |
| Pob oedran (3+) | **562,000** | **19.0** | **538,300** | **17.8** | **-23,700** | **-1.2** |

*Ffynhonnell: SYG, 2011 Cyfrifiad: Tabl KS207WA a 2021 Cyfrifiad: Tabl - TS033*[1]
**Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb oherwydd talgrynnu*

Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 1 drosodd, rhwng 2011 a 2021, mae'r newid o ran y gallu i siarad Cymraeg ar draws Cymru wedi amrywio. Er y gwelwyd gostyngiad cyffredinol yn y canrannau a'r niferoedd a adroddwyd, gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn digwydd yn y siroedd sy'n cynnwys cyfrannau uchaf y siaradwyr Cymraeg (yn y canolbarth a'r gogledd-ddwyrain).

[1] SYG – 2011 Cyfrifiad – Tabl KS207WA a 2021 Cyfrifiad Tabl - TS033 – Sgiliau'r Iaith Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael: [Census of Population - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]

Ffigur 1: Gwahaniaeth pwynt canran siaradwyr Cymraeg dros dair oed, 2011 i 2021




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011- Tabl KS207WA a 2021 Cyfrifiad: Tabl - TS033*[2]

Mae Tabl 2 drosodd yn amlinellu nifer a chanran y bobl dros dair oed sy’n gallu siarad Cymraeg mewn awdurdodau lleol sy’n cynnwys cyfran uchaf y siaradwyr Cymraeg.

[2] SYG – 2011 Census – Tabl KS207WA a 2021 Cyfrifiad Tabl - TS033 – Sgiliau’r Iaith Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael: [Census of Population - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)](nomisweb.co.uk)

Gwelwyd y gostyngiad cenedlaethol mwyaf o ran pwyntiau canrannol (-4.0) yn Sir Gaerfyrddin, sy'n dynodi newid arwyddocaol dros y ddegawd.  Ynys Môn oedd yr unig awdurdod lleol i weld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg (+1,845), er bod ei chanran wedi gostwng 1.5 pwynt canrannol o hyd. Mae hyn yn dangos bod gostyngiad poblogaeth yn Ynys Môn rhwng y ddau Gyfrifiad wedi lleihau cyfran y siaradwyr Cymraeg, er bod y nifer gwirioneddol wedi cynyddu.

Tabl 2: Canran a nifer y siaradwyr Cymraeg dros tri mlwydd oed yn yr awdurdodau lleol gyda'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg, 2011 a 2021.

| **Awdurdod Lleol** | **2011** | | **2021** | | **Gwahaniaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Nifer* | *%* | *Nifer* | *%* | *Nifer* | *pwynt %* |
| Gwynedd | 77,000 | 65.4 | 73,560 | 64.4 | -3,440 | -1.0 |
| Ynys Môn | 35,568 | 57.2 | 37,413 | 55.8 | 1,845 | -1.5 |
| Ceredigion | 34,964 | 47.3 | 31,678 | 45.3 | -3,286 | -2.0 |
| Sir Caerfyrddin | 78,048 | 43.9 | 72,838 | 39.9 | -5,210 | -4.1 |
| Conwy | 30,600 | 27.4 | 29,000 | 25.9 | -1,600 | -1.4 |


*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011- Tabl KS207WA a 2021 Cyfrifiad: Tabl - TS033*[3]

Mae'n nodedig bod rhai wardiau etholiadol unigol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs) wedi gweld cynnydd yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg, er gwaethaf gostyngiad cyffredinol ar draws yr awdurdod lleol ehangach.

Er bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos dirywiad graddol o ran nifer y siaradwyr Cymraeg ar lefel genedlaethol, mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) yn cynnig darlun gwahanol a mwy cadarnhaol.  Mae'r APB yn amcangyfrif cynnydd cyffredinol o ran niferoedd a chanran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg dros y ddegawd (2011 i 2021), gan godi o 769,000 (26.3%) i 895,700 (29.6%), er gwaethaf y gostyngiad a welwyd yn ddiweddar o'r uchafbwynt yn 2023 (896,300) (Ffigur 2).

[3] SYG – 2011 Cyfrifiad – Tabl KS207WA a 2021 Cyfrifiad Tabl - TS033 – Sgiliau'r Iaith Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael: [Census of Population - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)]

Ffigur 2: Nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 3 oed a throsodd 2001 a 2024, yn ôl y Cyfrifiad a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol – Cymru




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[4] a SYG – 2021 Cyfrifiad Tabl: TS033*

Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon APB wedi bod yn llawer uwch na'r rhai o'r Cyfrifiad yn gyson. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi cymell Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i lansio cynllun gwaith ar y cyd er mwyn deall y gwahaniaeth yn well. Roedd canfyddiadau cychwynnol o'r prosiect wedi datgelu bod 40% o unigolion wedi rhoi ymatebion anghyson am eu gallu i siarad Cymraeg rhwng y ddau arolwg, ac mae hyn yn cyfateb â tua dau o bob pump unigolyn.[5]

Mae gwahanol fethodoleg, maint samplau a chwmpas yn ffactorau sydd wrth wraidd y gwahaniaethau hyn rhwng amcangyfrifon. Mae'r APB yn arolwg gwirfoddol sy'n seiliedig ar sampl o tua 18,000 o aelwydydd ar draws Cymru bob blwyddyn, ac mae'r Cyfrifiad yn holiadur statudol a gaiff ei lenwi gan unigolion eu hunain. Cymrir y gallai presenoldeb swyddog cyfweld yn yr APB arwain at ymatebion mwy dymunol ar lefel gymdeithasol. Am fanylion pellach am y gwahaniaethau rhwng methodoleg y ddau arolwg, trowch at adroddiad *Cyfrifiad 2021: Adroddiad Pwnc yr Iaith Gymraeg (Rhagfyr 2022)* Cyngor Sir Ceredigion.

## 1.3 Symudedd Poblogaeth

Er mwyn deall y tirlun ieithyddol cenedlaethol dros y ddegawd ddiwethaf yn well, mae'n hanfodol ystyried y newidiadau demograffig sydd wedi dylanwadu ar y

---

[4] Stats Cymru (2025). Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Ar gael: [Annual Population Survey - Ability to speak Welsh by local authority and year]() (Cyrchwyd: 08.08.2025).

[5] Llywodraeth Cymru (2023). Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd. Ar gael: [Gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o allu yn y Gymraeg yng Nghyfrifiad 2021 ac arolygon aelwydydd [HTML] | LLYW.CYMRU]() (Cyrchwyd: 08.08.2025).

defnydd o iaith.  Mae Cymru wedi profi newidiadau demograffig cynnil, ond arwyddocaol, rhwng dau gyfrifiad (2011 a 2021), sydd wedi dylanwadu ar y defnydd o'r iaith Gymraeg, a'i throsglwyddiad.

### 1.3.1 Tyfiant Poblogaeth wedi'i gyrru gan Mudo

Roedd maint poblogaeth Cymru wedi cynyddu 1.4% (tua 42,000 o bobl) rhwng 2011 a 2021, gan gyrraedd rhif amcangyfrifedig o 3.1 miliwn.  Mae'n nodedig bod y twf hwn wedi digwydd er gwaethaf y ffaith y bu mwy o farwolaethau na genedigaethau yn ystod y cyfnod, sy'n dynodi bod y twf o ran maint y boblogaeth wedi cael ei ysgogi yn gyfan gwbl gan fudo net cadarnhaol.

Roedd y cynnydd yn nifer y preswylwyr a anwyd y tu allan i'r DU yn nodwedd allweddol o'r mudo hwn.  Yn 2021, roedd 6.9% o boblogaeth Cymru (tua 215,000 o bobl) heb gael eu geni yn y DU (a oedd yn cyfateb ag 1 o bob 14 preswylydd), i fyny o 5.6% yn 2011.  Roedd hyn yn amrywio ar lefel ranbarthol, o 2.9% yng Nghaerffili i 16.5% yng Nghaerdydd.  Fel cymhariaeth, roedd 1 o bob 6 preswylydd wedi cael eu geni y tu allan i'r DU ar draws Cymru a Lloegr at ei gilydd yn 2021.

Tabl 3: Poblogaeth breswyl arferol yng Nghymru yn ôl gwlad geni (2021)

| Gwlad | Nifer | Canran (%) |
|---|---|---|
| **Cymru** | 2,202,820 | 76.2 |
| **Lloegr** | 659,084 | 22.8 |
| **Yr Alban** | 21,975 | 0.8 |
| **Gogledd Iwerddon** | 7,803 | 0.3 |
| **Cyfanswm DU** | 2,892,065 | 93.1 |
| **Cyfanswm di-DU** | 215,434 | 6.9 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru (2023)*[6]

O blith y boblogaeth heb ei geni yn y DU, Gwlad Pwyl ac India oedd y wlad enedigol fwyaf cyffredin, nad oedd yn wlad yn y DU.  Ganwyd bron i 25,000 o bobl (0.8% o boblogaeth Cymru) yng Ngwlad Pwyl (i fyny o 18,000 yn 2011) a ganwyd 13,400 (0.4%) yn India (i fyny o 11,900 yn 2011).

[6] Stats Cymru (2023) Cyfrifiad 2021: Y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru, yn ôl gwlad enedigol fanwl ac ardal. Ar gael: Y boblogaeth breswyl arferol yng Nghymru, yn ôl gwlad enedigol fanwl ac ardal

### 1.3.2 Sgiliau Iaith Cymraeg Ymhlith Mewnfudwyr

Er bod hyfedredd yn y Gymraeg ymhlith preswylwyr heb eu geni yn y DU yn is na'r cyfartaledd, nid yw'n hollol absennol. Mae gan tua 8.1% o breswylwyr heb eu geni yn y DU rywfaint o sgiliau Cymraeg (gan amrywio o ddeall Cymraeg ar lafar yn unig, i siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg). Gall tua 5,360 o boblogaeth Cymru nad yw wedi cael ei geni yn y DU, sy'n cyfateb â 2.9%, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu, er y gallai mudo wanhau cyffredinrwydd yr iaith Gymraeg yn gyffredinol, ceir rhywfaint o weithgarwch dysgu'r Gymraeg ymhlith newydd-ddyfodiaid, a allai gael ei feithrin ymhellach trwy gyfrwng addysg neu fentrau penodol.

### 1.3.3 Allfudiad Siaradwyr Cymraeg

Mae nifer arwyddocaol o unigolion a anwyd yng Nghymru bellach yn byw yn Lloegr. Yn 2021, roedd 17.8% o bobl a anwyd yng Nghymru bellach yn byw yn Lloegr (478,700 o unigolion). Er nad yw'r Cyfrifiad yn casglu gwybodaeth am allu Cymraeg preswylwyr nad ydynt yn byw yng Nghymru, gellid amcangyfrif bod rhwng 48,000 ac 85,000 o'r unigolion hyn yn gallu siarad Cymraeg. Amcangyfrif yw hwn, a gyfrifwyd gan ddefnyddio tybiaeth bod 10-15% yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd cenedlaethol y siaradwyr Cymraeg (17.8%), gan ystyried llai o gyswllt a defnydd o'r iaith yn Lloegr. Mae'r allfudo hwn yn cynrychioli colled o ran siaradwyr Cymraeg o'r boblogaeth genedlaethol, hyd yn oed os yw'r iaith yn parhau i gael ei siarad mewn rhannau eraill o'r DU.

### 1.3.4 Poblogaeth sy'n Heneiddio a Throsglwyddo Iaith

Ymhellach, gallai'r boblogaeth sy'n heneiddio a marwolaeth cenedlaethau hŷn fod yn cyfrannu at y dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg, Mae cenedlaethau hŷn, yn enwedig y rhai a anwyd cyn canol yr 20fed ganrif, yn fwy tebygol o fod wedi cael eu magu yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith, yn enwedig mewn ardaloedd Cymraeg traddodiadol. Wrth i'r unigolion hyn farw, mae Cymru yn colli carfan sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg cryf. Ar yr un pryd, mae cyfraddau genedigaethau is yn golygu bod llai o bobl ifanc yn dod yn rhan o'r boblogaeth. Heb drosglwyddiad cadarn y Gymraeg trwy gyfrwng teulu neu addysg, mae'r iaith mewn perygl o ddirywio yn gyflymach nag y mae modd ei chynnal.

## 1.4 Sgiliau Iaith

Caiff y Gymraeg, fel unrhyw iaith, ei dysgu a'i defnyddio ar lefelau amrywiol – o ddeall Cymraeg sylfaenol i rugl̈der llawn. Roedd Cyfrifiad 2021 yn datgelu newidiadau cynnil o ran sgiliau Cymraeg.

Gwelwyd canran y bobl sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg yn gostwng ychydig o 14.6% yn 2011 i 14.2% yn 2021 (sy'n cyfateb ag oddeutu 1,400 yn llai o unigolion). Roedd y dirywiad hwn yn arafach na'r gostyngiad o 1.7 pwynt canrannol a

gofnodwyd rhwng 2001 a 2011. Mae'n ddiddorol nodi bod canran y bobl sy'n deall Cymraeg ar lafar yn unig (ond nad ydynt yn gallu siarad, darllen nac ysgrifennu Cymraeg) wedi codi rhwng 2001 a 2011 (o 4.9% i 5.3%), fodd bynnag, gwelwyd y duedd hon yn gwrthdroi rhwng 2011 a 2021, gyda'r ffigwr yn gostwng ychydig i 5.2%,. Gallai'r newid hwn ddynodi, er bod y cyswllt â'r Gymraeg wedi codi yn ystod y 2000au cynnar, nid yw wedi cael ei gynnal ac nid yw wedi trosi i fod yn gyfradd gadw dros y tymor hwy. Er bod y rhesymau dros y tueddiadau hyn yn gymhleth, maent yn amlygu'r pryder parhaus a chynyddol bod cynnal a chryfhau rhuglder yr un mor bwysig â chynyddu cyswllt gyda'r iaith.

### 1.5 Casgliad

Er bod Cyfrifiad 2021 wedi cofnodi cyfran isaf erioed y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru (17.8%), mae'r dirywiad wedi arafu o'i gymharu â degawdau blaenorol. Mae dros hanner miliwn o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg o hyd, ac mae'r iaith yn parhau i gael ei defnyddio y tu hwnt i'w chadarnleoedd traddodiadol o hyd. Mae patrymau mudo, poblogaethau sy'n heneiddio a llai o drosglwyddiad rhwng y cenedlaethau yn ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at y dirywiad. Er y gallai mudo i Gymru gan breswylwyr heb eu geni yn y DU fod yn gwanhau cyffredinrwydd y defnydd o'r Gymraeg, mae'n galonogol nodi bod rhai preswylwyr nad ydynt wedi cael eu geni yn y DU yn caffael sgiliau Cymraeg. Ymhellach, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19 – cyfnod a nodweddwyd gan gyfnodau clo, dysgu o bell a newidiadau i ffordd o fyw pobl, ac fe allai'r rhain oll fod wedi dylanwadu ar y ffordd yr oedd pobl yn defnyddio'r Gymraeg, ond hefyd, sut yr oeddent yn adrodd am eu sgiliau Cymraeg. Gan bod ysgolion bellach wedi ailagor, ac mae bywyd dyddiol wedi ailsefydlu ar ôl y pandemig, ceir potensial i sicrhau adferiad a thwf o'r newydd o ran y defnydd o'r Gymraeg.

# 2.0 Ceredigion: Trosolwg


Ar sail y cyfrifiadau a gynhaliwyd yn ddiweddar, mae'r tueddiadau yng Ngheredigion yn gymharol debyg i'r hyn a welir ar draws Cymru gyfan.

Yng Nghyfrifiad 2021, adroddwyd bod 31,680 (45.3%) o breswylwyr Ceredigion dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn is na'r nifer a'r ganran a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2011, sef 34,964 (47.3%) – gostyngiad o 3,290 o bobl a 2.0 pwynt canrannol.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd canran y preswylwyr tair oed neu'n hŷn a oedd yn gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn is nag yr oedd erioed wedi bod yn hanes y Cyfrifiad (45.3%). Fel yr adlewyrchir yn Ffigur 3 drosodd, mae hyn yn barhad tuedd o

ddirywiad o ran canran y siaradwyr Cymraeg yn y Sir er Cyfrifiad 1981. Mae'n nodedig, fodd bynnag, y bu cyflymder y dirywiad yn arafach dros y ddegawd ddiwethaf (gostyngiad o 2.0 pwynt canrannol), o'i gymharu â 1991-2001 (gostyngiad o 5.1 pwynt canrannol) a 2001-2011 (gostyngiad o 4.7 pwynt canrannol).

Ffigur 3: Canran y trigolion 3 oed a drosodd a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yng Nghyfrifiadau 1991, 2001, 2011 a 2021.




*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 1981, 1991, 2001, 2011 a 2021.*[7]

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd gallu y rhan fwyaf o grwpiau oedran i siarad Cymraeg wedi dirywio dros y ddegawd (trwch at Dabl 4 drosodd). Y prif ffactor a oedd yn cyfrannu at y gostyngiad cyffredinol o ran y canran sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion oedd y gostyngiad o ran nifer y plant a phobl ifanc 3 i 15 oed (gymaint â 6.6 pwynt canrannol) a'r gostyngiad yn nifer y bobl 65+ oed (gymaint â 6.5 pwynt canrannol). Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol o ran niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, mae'n ffaith bod cyfran yr oedolion (16 i 64 oed) wedi codi 0.5 pwynt canrannol, ac mae hyn yn rhywbeth cadarnhaol.

[7] SYG – 1981, 1991, 2001, 2011 a 2021 Cyfrifiad. Sgiliau'r Iaith Gymraeg (siarad). [Ar-lein]. Ar gael: Census of Population - Data Sources - home - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

Tabl 4: Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn ôl grŵp oedran 2021

| | 3-15 mlwydd oed | 16-64 mlwydd oed | 65+ mlwydd oed | Pawb dros 3 mlwydd oed |
|---|---|---|---|---|
| **2011** | 7,175 (78.4%) | 20,503 (41.8%) | 7,286 (46.4%) | 34,964 (47.3%) |
| **2021** | 6,123 (71.8%) | 18,219 (42.4%) | 7,347 (39.9%) | 31,689 (45.3%) |
| **Gwahaniaeth** | -1,052 (-6.6 pwynt canran) | -2,284 (+0.5 pwynt canran) | +61 (-6.5 pwynt canran) | -3,275 (-2.0 pwynt canran) |

*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011[8] & 2021[9]*

Rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021, roedd Ceredigion wedi profi newidiadau demograffig sy'n helpu i esbonio'r tueddiadau o ran gallu yn y Gymraeg ar draws grwpiau oedran yn rhannol. Ymhlith preswylwyr 16 i 64 oed, roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg wedi codi, er bod nifer go iawn y siaradwyr wedi gostwng tua 1,500. Mae'r gwrthddywediad ymddangosiadol hwn o ganlyniad i ostyngiad sylweddol ym maint y boblogaeth 16 i 44 oed gyffredinol yn bennaf, a oedd wedi gostwng 17%, a oedd yn cyfateb â cholli 4,905 o unigolion. Wrth i'r boblogaeth gyffredinol yn y grŵp oedran hwn leihau, roedd cyfran gymharol y siaradwyr Cymraeg wedi codi, er gwaethaf y gostyngiad o ran y niferoedd absoliwt.

Mewn cyferbyniad, roedd poblogaeth arferol y preswylwyr 65 i 74 oed wedi codi 18.1% (1,524 o breswylwyr). Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg 65+ oed wedi codi rhyw ychydig (gymaint â 61 unigolyn), gwelwyd cyfran y siaradwyr Cymraeg yn gostwng.[10] Mae hyn oherwydd bod y cynnydd ym maint y boblogaeth gyffredinol 65+ oed yn ennill y blaen ar y cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae maint y boblogaeth myfyrwyr yn arwyddocaol yng Ngheredigion – gyda rhwng 7,000 ac 8,500 yn arferol dros y blynyddoedd diwethaf.[11] Fodd bynnag, mae'n bosibl cyfrifo beth fyddai'r sefyllfa ieithyddol y tu allan i'r tymor coleg. Ar y sail honno, nodir bod 31,392 o siaradwyr

[8] SYG – 2011 Cyfrifiad – Tabl LC2106WA. [Ar-lein]. Ar gael: [Nomis - Query Tool - LC2106WA - Welsh language skills by sex by age]

[9] SYG – 2021 Cyfrifiad – Tabl TS076. [Ar-lein]. Ar gael: [Nomis - Query Tool - TS076 - Welsh language skills (speaking) by single year of age]

[10] SYG – 2021 Cyfrifiad – Tabl TS076. [Ar-lein]. Ar gael: [Nomis - Query Tool - TS076 - Welsh language skills (speaking) by single year of age]

[11] HESA (2025) Cofrestriadau Myfyrwyr AU yn ôl darparwr AU. Ar gael: [Where do HE students study? | HESA]

Cymraeg dros 3 oed yn y sir – 47.0% o'r boblogaeth.[12]

Er bod canlyniadau'r Cyfrifiad yn dangos dirywiad graddol o ran niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion, mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) wedi cynnig darlun gwahanol, a mwy cadarnhaol, yn ystod y cyfnod cyn y cyfrifiad. Roedd yr APB wedi amcangyfrif cynnydd cyffredinol yn niferodd a chanran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg dros y ddegawd, gan godi o 54.4% (41,400) i 60.4% (43,200), cynnydd o 1,800. Mae canlyniadau APB wedi bod yn llawer uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad yn gyson, er, fel y nodwyd yn flaenorol, bod hyn yn seiliedig ar sampl o 18,000 o aelwydydd ar draws Cymru bob blwyddyn.

## 2.1 Y Sefyllfa Leol

Mae'r sefyllfa ieithyddol yng Ngheredigion yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd, ac mae amrediad o ffactorau economaidd a diwylliannol yn dylanwadu ar hyn. Canfu ymchwil gan Lywodraeth Cymru berthnasoedd rhwng y gallu i siarad Cymraeg a rhyw, grŵp oedran, cyrhaeddiad addysgol, dosbarthiad tir ac ymdeimlad o berthyn.[13] Yn gyffredinol, gwelwyd canrannau y bobl yr adroddwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ar draws y sir yn gostwng ers y Cyfrifiad yn 2011.

Ystwyth (57.2%), Aberaeron ac Aber-arth (56.3%) a Thregaron ac Ystrad Fflur (56.1%) oedd y wardiau a gofnododd canrannau uchaf y siaradwyr Cymraeg yn 2021. Y wardiau lle'r adroddwyd y ganran isaf o ran siaradwyr Cymraeg oedd Morfa a Glais Aberystwyth (29.5%), Faenor (27.7%) a Rheidol Aberystwyth (25.6%). Mae hyn yn amlygu dylanwad myfyrwyr prifysgol ar ardal Aberystwyth.

Tabl 5: Wardiau Etholiadol gyda'r canrannau uchaf ac isaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion (Cyfrifiad 2021).

| Ward Etholiadol | % o siaradwyr Cymraeg |
|---|---|
| **Canran uchaf o siaradwyr Cymraeg (%)** | |
| Ystwyth | 57.2 |
| Aberaeron ac Aberarth | 56.3 |
| Tregaron ac Ystrad Fflur | 56.1 |
| Mwldan | 54.8 |
| Llanfarian | 53.2 |
| **Y ganran isaf o siaradwyr Cymraeg (%)** | |
| Llanbadarn Fawr | 33.8 |

[12] SYG - 2021 Cyfrifiad - Tabl OT008 – Poblogaeth y tu allan i'r tymor yn ôl sgiliau iaith Gymraeg (siarad) Nomis. Ar gael: Out-of-term population, England and Wales: Census 2021 - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

[13] Llywodraeth Cymru (2020) Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn siarad yr iaith Gymraeg? Ar gael: What factors are linked to people speaking the Welsh language?

| | |
|---|---|
| Aberystwyth Penparcau | 32.3 |
| Aberystwyth Morfa a Glais | 29.5 |
| Faenor | 27.7 |
| Aberystwyth Rheidol | 27.6 |

*Ffynhonnell: SYG – 2021 Cyfrifiad, Tabl TS033 –Sgiliau'r Iaith Gymraeg (siarad).*[14]

Mae canrannau unigolion sy'n gallu siarad Cymraeg mewn ardaloedd eraill ar draws Ceredigion e.e. Ceinewydd a Llanllwchaearn (40.9%) a Borth (42.0%), yn amlygu dylanwad mewnlifiad o bobl yn symud i'r ardaloedd hyn o'r tu allan i Geredigion.

Er Cyfrifiad 2011, mae sawl un o ffiniau wardiau etholiadol Ceredigion wedi newid, felly nid yw'r holl ddata yn gymharol rhwng cyfrifiadau. Fodd bynnag, lle y mae modd gwneud cymariaethau, mae'r data yn dangos bod Ward Llangeitho wedi profi'r gostyngiad mwyaf o ran canran y siaradwyr Cymraeg, o 54.9% yn 2011 i 47.4% erbyn 2021, gostyngiad o 7.5 pwynt canrannol. Dilynir hyn gan Ward Llanwenog, sydd wedi gostwng 6.5 pwynt canrannol o 59.2% yn 2011 i 52.7% erbyn 2021.

Dim ond dwy o'r wardiau etholiadol cymharol oedd wedi gweld cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn ward Llanbedr Pont Steffan, gan godi 1.9 pwynt canrannol o 46.9% yn 2011 i 48.8% yn 2021. Dilynwyd hyn gan Borth, gyda chynnydd o 0.4 pwynt canrannol.

Mae'r ffigurau hyn yn amlygu natur anwastad newid ieithyddol ar draws y sir, wrth i rai ardaloedd brofi dirywiad ac wrth i eraill ddangos twf cymedrol.

Gellir gweld tablau sy'n portreadu'r agweddau ar sgiliau iaith ar sail rhifau a chanrannau ar gyfer pob ward ystadegol yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad hwn.

## 2.2 Sgiliau Iaith

Mae Cyfrifiad 2021 yn cynnig trosolwg o amrediad y sgiliau Cymraeg yng Ngheredigion, sy'n cynnwys ysgrifennu, darllen a deall Cymraeg. Mae'n bwysig nodi bod ystadegau iaith y Cyfrifiad yn seiliedig ar dybiaeth unigolion o'u sgiliau eu hunain a sgiliau aelodau eu teulu, ac mae'n hysbys bod y canfyddiadau hyn yn gallu bod yn oddrychol ac yn amrywiol.

Tabl 6: Ystod sgiliau Cymraeg yng Ngheredigion 2011 a 2021

| Sgiliau Cymraeg | 2011 | 2021 |
|---|---|---|
| Siarad Cymraeg | 47.3% (34,960) | 45.3% (31,680) |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | 8.1% (6,020) | 8.5% (5,950) |
| Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu | 38.8% (28,630) | 37.3% (26,100) |

[14] SYG (2021). TS033 – Sgiliau'r Iaith Gymraeg (siarad). Ar gael: Nomis – Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk).

| | | |
|---|---|---|
| Cymraeg | | |
| Yn gallu siarad ond ni all ddarllen na ysgrifennu Cymraeg | 4.9% (3,630) | 4.9% (3,410) |
| Yn gallu siarad a darllen ond ni all ysgrifennu Cymraeg | 3.4% (2,530 | 2.6% (1,810) |
| Dim sgiliau Cymraeg | 42.4% (31,290) | 43.6% (30,480) |

*Ffynhonnell: SYG – 2011 a 2021 Cyfrifiad, Sgiliau'r Iaith Gymraeg (manwl)*[15]

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion wedi gostwng 2.0 o bwyntiau canrannol rhwng 2011 a 2021, felly nid yw hi'n peri syndod i ni weld amrywiadau o ran sgiliau eraill. Mae canran y rhai 3 oed a throsodd heb unrhyw sgiliau Cymraeg wedi codi o 42.3% yn 2011 i 43.6% yn 2021, cynnydd o 1.3 pwynt canrannol. Wedi dweud hyn, o ganlyniad i newidiadau demograffig, mae nifer y bobl heb unrhyw sgiliau Cymraeg wedi gostwng yng Ngheredigion gymaint â -810 o bobl.

Gwelwyd y gostyngiad mwyaf o ran sgiliau Cymraeg ymhlith canran y bobl tair oed a throsodd yr oeddent yn "gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg", gan ostwng 1.0 pwynt canrannol, o 38.3% yn 2011 i 37.3% yn 2021. Mae hyn yn cyfateb â thua 2,535 o bobl yn llai, fodd bynnag, mae'n ostyngiad llai o faint na'r hyn a welwyd ar gyfer canran a nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Ar yr un pryd, roedd y ganran a oedd yn adrodd eu bod yn gallu deall Cymraeg llafar wedi codi o 8.1% (6,020) yn 2011 i 8.5% (5,95) yn 2021 yn unig, cynnydd o 0.4 o bwyntiau canrannol.

## 2.3 Symudedd Poblogaeth

Mae symudedd y boblogaeth wedi bod yn ffactor amlwg yn nemograffeg Ceredigion ers sawl degawd. Mae symudedd poblogaeth Ceredigion yn gymharol uchel, sy'n rhannol o ganlyniad i'r Brifysgol sefydledig yn y Sir, sy'n denu miloedd o fyfyrwyr i Geredigion bob blwyddyn. Yn 2023/24, roedd tua 8,320 o fyfyrwyr yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth.[16]

Tabl 7: Lleoliad genedigaethau poblogaeth Ceredigion 2011 a 2021

| | Ganwyd yng Nghymru | Ganwyd yng Lloegr | Ganwyd yn rhywle arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 2021 | 54.4% (38,890) | 37.3% (26,670) | 8.3% (5,930) | 71,500 |
| 2011 | 55.3% (42,010) | 37.4% (28,390) | 7.3% (5,530) | 75,900 |

*Ffynhonnell: SYG, Cyfrifiad 2011*[17] *& 2021*[18]

[15] SYG (2021). TS032 – Sgiliau'r Iaith Gymraeg (manwl). Ar gael: Nomis - Query Tool - TS032 - Welsh language skills (detailed)
[16] HESA (2025) Cofrestriadau Myfyrwyr AU yn ôl darparwr AU. Ar gael: Where do HE students study? | HESA
[17] SYG – Cyfrifiad 2011 – Tabl QS203EW Gwlad geni (manwl). Ar gael: Nomis - Query Tool - QS203EW - Country of birth (detailed)
[18] SYG – Cyfrifiad 2021 – Tabl TS012 Gwlad geni (manwl). Ar gael: Nomis - Query Tool - TS012 - Country of birth (detailed)

Ganwyd mwyafrif poblogaeth Ceredigion (54.4%/38,892) yng Nghymru. Er, roedd hyn yn ostyngiad bach o'r sefyllfa yn 2011 (55.3%), gostyngiad o 3,110 o breswylwyr (-0.9 o bwyntiau canrannol). Yn debyg i Gyfrifiad 2011, roedd ychydig yn llai na hanner poblogaeth y Sir yn 2021 wedi cael eu geni y tu allan i Gymru. Mae canran preswylwyr y Sir sydd wedi'u geni y tu allan i Gymru a Lloegr wedi codi 1.0 o bwyntiau canrannol (+400 o breswylwyr). Mae canran preswylwyr Ceredigion a anwyd yn Lloegr, fodd bynnag, wedi aros yn gymharol sefydlog.


Credir bod nifer o'n preswylwyr iau sy'n siarad Cymraeg yn symud o Geredigion i Gaerdydd i geisio addysg bellach, cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol. Yn ôl HESA, mae tua 260-300 o fyfyrwyr o Geredigion yn symud i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd neu Brifysgol Metropolitan Caerdydd bob blwyddyn.[19] Mae'n debygol bod gan y garfan hon ryw lefel o allu i siarad Cymraeg. Er y bydd nifer yn aros yn y ddinas, deallir bod rhai yn dychwelyd i Geredigion i geisio bywyd llai trefol a/neu efallai y byddant yn dymuno cychwyn teulu. Yn y dyfodol, gallai llif mudo rhwng Caerdydd a Cheredigion newid gan bod gweithio o bell wedi dod yn fwy cyffredin, sy'n golygu y gall preswylwyr fyw yng Ngheredigion nawr a gweithio mewn rhywle arall.

## 2.4 Hunaniaeth Genedlaethol

O ran hunaniaeth genedlaethol, yn 2021, roedd 46.6% (33,360) o boblogaeth Ceredigion yn disgrifio ei hun fel 'Cymraeg yn unig', sy'n debyg i Gyfrifiad 2011, sef bod 'Cymraeg yn unig' wedi parhau i fod yr hunaniaeth genedlaethol fwyaf yng Ngheredigion, a ddilynwyd gan 'Prydeinig yn unig' (21.7%/15,500) a 'Saesneg yn unig' 14.6% (10,430). Mae'n ymddangos bod preswylwyr Ceredigion yn teimlo cysylltiad mwy cryf â hunaniaeth Gymreig na'r hunaniaeth Brydeinig ehangach.

Ffigur 4: Canran o drigolion Ceredigion a nododd eu bod yn "Gymraeg yn unig" yng Nghyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021.

[19] HESA (2018-2021). Myfyrwyr AU sy'n byw yn y DU yn ôl darparwr AU a'u cartref – Blynyddoedd academaidd 2014/15 i 2020/21. [Ar-lein]. Ar gael: Where do HE students come from? | HESA




*Ffynhonnell: SYG, 2011 Cyfrifiad – Tabl: QS214EW[20]; 2021 Cyfrifiad – Tabl: TS028[21]*

## 2.5 Iaith a Chyflogaeth

Mae gweithlu Ceredigion yn dibynnu'n fawr ar y sector addysg, ac mae addysg, gofal iechyd, twristiaeth a lletygarwch yn cyflawni rôl allweddol. At hynny, mae amaethyddiaeth, adeiladu a manwerthu yn ffynonellau cyflogaeth arwyddocaol ar draws y sir.

Tabl 8: Canrannau cyflogaeth yn 2021 - meysydd gwaith

| Maes Gwaith | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|
| Iechyd | 14.8% | 17.1% |
| Addysg | 14.8% | 8.8% |
| Gwasanaethau Llety a Bwyd | 13.0% | 8.7% |

*Ffynhonnell: SYG (2024) Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth[22]*

Mae gan Geredigion broffil demograffig nodweddiadol, gyda chyfran uchel o fyfyrwyr amser llawn a phreswylwyr hŷn. Er gwaethaf hyn, mae Ceredigion wedi profi ei chyfradd gweithgarwch economaidd uchaf erioed (78.8%), gan fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (75.5%) am y tro cyntaf er 2005.[23]

Mae Ceredigion yn parhau i gynnwys cyfran uchel o bobl hunangyflogedig, sydd bron i ddwywaith yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (trowch at dabl 9), gan adlewyrchu

[20] SYG (2011). 2011 Cyfrifiad – Tabl: QS214EW – Hunaniaeth genedlaethol (manwl). [Ar-lein]. Ar gael: QS214EW (National Identity (detailed)) - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics (nomisweb.co.uk)

[21] SYG – Cyfrifiad 2021 – Tabl TS028 Hunaniaeth genedlaethol (manwl). Ar gael: Nomis - Query Tool - TS028 - National identity (detailed)

[22] SYG (2025). Proffil y Farchnad Lafur – Ceredigion. Ar gael: Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

[23] SYG (2025). Proffil y Farchnad Lafur – Ceredigion. Ar gael: Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics

dibyniaeth y sir ar sectorau fel amaethyddiaeth, twristiaeth a busnesau bychain.

Tabl 9: Cyflenwad llafur – Ceredigion a Chymru (blwyddyn yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2024)

| Gweithgarwch economaidd | Ceredigion | Cymru |
|---|---|---|
| **Economaidd weithgar** | 78.8% | 75.5% |
| **Economaidd weithgar: Mewn cyflogaeth** | 77.0% | 73.0% |
| **Economaidd weithgar: Mewn cyflogaeth: Gweithwyr** | 62.1% | 64.7 |
| **Economaidd weithgar: Mewn cyflogaeth: Hunangyflogedig** | 14.7% | 7.9% |
| **Economaidd weithgar: Di-waith*** | 2.5% | 3.2% |
| **Economaidd anweithgar** | 21.2% | 24.5% |

*Ffynhonnell: SYG (2024) Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth* [24]

Rhaid i unrhyw strategaeth iaith i gefnogi'r iaith Gymraeg gydnabod rôl ganolog yr economi a chyflogaeth wrth gynnal cymunedau Cymraeg eu hiaith. Ceir dwy agwedd i'r berthynas honno:

1. Yr angen i sicrhau cyflogaeth amrywiol ac eang er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau Cymraeg y sir.
2. Y gwerth a roddir ar sgiliau Cymraeg yn y gweithle, yn y byd masnachol ac mewn diwydiant.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, roedd 49.6% o weithlu Ceredigion a oedd yn 16 oed a throsodd (30,119) yn gallu siarad Cymraeg. Mae patrymau arwyddocaol yn ymddangos ar draws galwedigaethau. Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gael eu cyflogi mewn crefftau medrus (59.7%), galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (54.2%), a galwedigaethau technegol a phroffesiynol cysylltiedig (51.9%). Gwelir cyfrannau is o siaradwyr Cymraeg yn cyflawni galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid (38.8%) a galwedigaethau elfennol (41.8%).

Tabl 10: Y gallu i siarad Cymraeg o fewn y gweithlu dros 16 oed yn ôl galwedigaeth, 2021.


| | Medru Siarad Cymraeg | Methu Siarad Cymraeg | Cyfanswm | % o siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr, cyfarwyddwyr a swyddogion uwch | 1,481 | 1,882 | **3,363** | 44% |
| Galwedigaethau proffesiynol | 2,673 | 2,695 | **5,368** | 49.8% |
| Galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig | 1,612 | 1,496 | **3,108** | 51.9% |
| Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 1,328 | 1,124 | 2,452 | 54.2% |
| Galwedigaethau crefftau medrus | 3,244 | 2,193 | 5,437 | 59.7% |
| Galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill | 1,565 | 1,582 | 3,147 | 49.7% |

[24] SYG (2025). Proffil y Farchnad Lafur – Ceredigion. Ar gael: [Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics]

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid | 935 | 1,473 | 2,408 | 38.8% |
| Gweithredu prosesau, offer a pheiriannau | 801 | 911 | 1,712 | 46.8% |
| Galwedigaethau elfennol | 1,307 | 1,817 | 3,124 | 41.8% |
| | | | | |
| | **14,946** | **15,173** | **30,119** | **49.6%** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*[25]

Ffigur 5: Y gallu i siarad Cymraeg o fewn y gweithlu dros 16 oed yn ôl galwedigaeth, 2021




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021*[26]

Bu Rhaglen Arfor yn llwyddiant yng Ngheredigion, wrth iddi gynorthwyo busnesau lleol a chreu swyddi yn y sir yn benodol. Nod y rhaglen yw cryfhau'r iaith Gymraeg a'r economi trwy gynorthwyo busnesau sy'n defnyddio ac sy'n hyrwyddo'r iaith. Cynorthwywyd 154 o fusnesau ar draws y rhanbarth. Er y bydd y rhaglen yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 2024/25, mae wedi cyflawni rôl arwyddocaol wrth wella'r economi leol a chreu cyfleoedd i fusnesau ddatblygu ac ehangu.

Mae'r rhaglen, a ariannir gan Lywodraeth Cymru, wedi gweithredu yng nghadarnleoedd traddodiadol yr iaith Gymraeg yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd ac Ynys Môn, gan gynnig cymorth datblygu economaidd ac

[25] SYG – Cyfrifiad 2021 - Tabl RM 152. Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl galwedigaeth. Ar gael: [Nomis - Query Tool - RM152 - Ability to speak Welsh by occupation]
[26] SYG – Cyfrifiad 2021 - Table RM 152. Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl galwedigaeth. Ar gael: [Nomis - Query Tool - RM152 - Ability to speak Welsh by occupation]

entrepreneuriaeth er mwyn cynnal a galluogi'r iaith Gymraeg i ffynnu trwy gyfrwng ymyriadau economaidd.

# 3.0 Y Blynyddoedd Cynnar

Mae sicrhau bod yr iaith yn cael ei chaffael yn gynnar a bod siaradwyr Cymraeg yn trosglwyddo'r iaith o un genhedlaeth i'r llall, yn hanfodol er mwyn i'r iaith Gymraeg oroesi. Yn ogystal, mae creu cyfleoedd i blant gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cymuned leol yn hanfodol ar gyfer parhad yr iaith Gymraeg, fel pob iaith arall.

## 3.1 Trosglwyddo Iaith

Rhoddwyd cryn bwyslais ar gaffael iaith yn ystod y blynyddoedd cynnar dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2016, cyflwynwyd Cymraeg i Blant, sy'n ceisio cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chynnig cymorth i rieni/gwarcheidwaid ac aelodau teuluol eraill ynghylch trosglwyddo'r Gymraeg i blant.[27] Mae gweithgareddau Mudiad Meithrin a darparu addysg y Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion y sir yn allweddol yma hefyd.

Er bod cyfrifo cyfraddau trosglwyddo iaith o fewn aelwydydd yn heriol heb waith ymchwil manwl, mae data y Cyfrifiad yn cynnig syniad bras trwy gyfrwng gallu Cymraeg a adroddir ymhlith plant 3-4 oed. Er na cheir ystadegau uniongyrchol sy'n mesur graddfa y defnydd o'r iaith o fewn teuluoedd, mae Cyfrifiad 2021 yn darparu ffigurau sy'n dangos cyfran y plant sy'n siarad Cymraeg, yn seiliedig ar broffil ieithyddol eu haelwyd. Mae hyn yn cynnig dirnadaeth ddefnyddiol, os cyfyngedig, o'r ffordd y caiff y Gymraeg ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl bod nifer y plant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng tra bod y ganran wedi cynyddu rhwng y ddau Gyfrifiad. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd ffactorau demograffig, fel gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth yng Ngheredigion.

[27] Llywodraeth Cymru (2021) Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd. Ar gael: WG36969


Tabl 11: Plant 3–4 oed yng Ngheredigion sy'n gallu siarad Cymraeg yn ôl math o deulu 2021 a 2011.

| | | Teulu *CC | Teulu *C/- | Teulu *C/S | Teulu heb oedolyn sy'n siarad Cymraeg | Pob siaradwr Cymraeg 3-4 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2011 | Canran | 83.3% | 63.5% | 58.9% | 18.6% | 59.2% |
| | Nifer y plant | 348 | 73 | 195 | 141 | 757 |
| 2021 | Canran | 83.6% | 77.8% | 49.1% | 14.4% | 52.6% |
| | Nifer y plant | 280 | 70 | 130 | 80 | 555 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & 2021*[28]

*CC = 2 Rhieni Cymraeg eu hiaith, C/- = rhiant sengl sy'n siarad Cymraeg, C/S = Rhiant sy'n siarad Cymraeg a rhiant nad yw'n siarad Cymraeg.

Ffigur 6: Canran y plant 3–4 oed yng Ngheredigion yn ôl natur ieithyddol y teulu 2011 a 2021.




[28] Llywodraeth Cymru (2024) Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn ôl awdurdod lleol: Cyfrifiad 2001, 2011, 2021. Ar gael: [Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn ôl awdurdod lleol: Cyfrifiad 2001, 2011, 2021 | LLYW.CYMRU]

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 & 2021*[29]

Gwelwyd canran y plant 3-4 oed a oedd yn siarad Cymraeg yng Ngheredigion yn gostwng yn sylweddol, gymaint â 6.6 o bwyntiau canrannol rhwng 2011 (59.2%) a 2021 (52.6%). Gwelwyd nifer y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng hefyd yn ystod y cyfnod hwn, o 757 yn 2011 i 555 yn 2021. Mae hyn yn cyd-fynd â'r tueddiadau cenedlaethol ac fe allai adlewyrchu gostyngiad yn y gyfradd drosglwyddo ymhlith teuluoedd sy'n cynnwys cyplau iaith gymysg (h.y. Cymraeg/Saesneg) a theuluoedd lle nad oedd unrhyw oedolyn yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae cyfraddau trosglwyddo ymhlith cyplau sy'n siarad Cymraeg wedi codi rhyw ychydig yng Ngheredigion o 83.3% yn 2011 i 83.6% yn 2021. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ymhlith rhieni Cymraeg sengl (14.3 pwynt canrannol), lle'r oedd cyfraddau trosglwyddo wedi codi o 63.5% yn 2011 i 77.8% yn 2021. Mae hyn yn wahanol i'r duedd genedlaethol, lle y gwelwyd gostyngiad o 1.1 pwynt canrannol yn ystod yr un cyfnod.

Un esboniad posibl dros y gostyngiad cyffredinol yng nghanran y plant 3-4 oed sy'n siarad Cymraeg yw bod mwy o rieni heddiw yn siaradwyr Cymraeg ail iaith o gartrefi Saesneg eu hiaith, y gallent barhau i ddefnyddio Saesneg fel iaith eu haelwyd. Fodd bynnag, mae gofyn cynnal gwaith ymchwil pellach er mwyn deall y tueddiadau hyn yn llawn. Er hyn, mae'n ymddangos bod cynnal yr iaith Gymraeg fel cyfrwng addysg yn y Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod yn allweddol er mwyn cynorthwyo gweithgarwch cymdeithasu yn yr iaith yn gynnar, a'i datblygiad ymhlith plant ifanc.

## 3.2 Mudiad Meithrin

Sefydlwyd Mudiad Meithrin ym 1971, gyda'r nod o annog chwarae a dysgu cyfrwng Cymraeg ymhlith plant o'u genedigaeth nes iddynt gyrraedd oedran ysgol.[30] Darparir grwpiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant blynyddoedd cynnar yng Ngheredigion gan Fudiad Meithrin yn bennaf.

Mae'r sefydliad yn cyflenwi grwpiau a dosbarthiadau o ddechrau'r cyfnod o fagu plant, sy'n cynnwys sesiynau gwybodaeth ar-lein i ddarpar rieni a rhieni newydd a 'Cymraeg i Blant', sydd ar gyfer rhieni newydd. Yn ogystal, maent yn cynnig grwpiau megis Tylino babanod, Ioga babanod a 'Stori a Chân'. Gan symud ymlaen o'r cyfnod genedigaeth, mae gan y sefydliad 15 o 'Gylchoedd Ti a Fi' yng Ngheredigion.[31] Mae'r cylchoedd yn darparu cyfleoedd i blant ifanc i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn rhoi cyfle i rieni cymdeithasu. Mae yna hefyd 26 Cylch Meithrin yn y sir, [32] sydd yn darparu gweithgareddau i blant i sicrhau siwrne lyfn at addysg Gymraeg.

[29] Llywodraeth Cymru (2024) Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn ôl awdurdod lleol: Cyfrifiad 2001, 2011, 2021. Ar gael: Cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn ôl awdurdod lleol: Cyfrifiad 2001, 2011, 2021 | LLYW.CYMRU

[30] Mudiad Meithrin (2025) Ar gael: Homepage - Mudiad Meithrin - Welsh-medium playgroups

[31] Mudiad Meithrin (2025) Cylch Ti a Fi. Ar gael: Cylch Ti a Fi - Meithrin

[32] Mudiad Meithrin (2025) Cylch Meithrin. Ar gael: Cylchoedd Meithrin - Meithrin

**Cylchoedd Ti a Fi yng Ngheredigion (15)** [33]

- Nawmor (Cenarth)
- Bro Teifi (Llandysul)
- Y Llewod Bach
- Cledlyn
- Talgarreg
- Wiwerod Bach
- Llanddewi Brefi
- Llanon
- Pontrhydfendigaid
- Llangwyryfon
- Ffrindiau Bach yr Eos
- Camau Bach
- Tal y Bont (Ceredigion)
- Llanilar
- Dyffryn Aeron

**Cylchoedd Meithrin yng Ngheredigion (26)** [34]

- Ffrindiau Bach yr Enfys Aberteifi
- Llechryd
- Penparc
- Y Llewod Bach
- Cregyn Aeron
- Talgarreg
- Llanarth
- Nawmor (Cenarth)
- Ffrindiau Bach Tegryn (Aberporth)
- Bro Teifi (Llandysul)
- Rhydypennau
- Llanilar
- Trefeurig
- Cei Newydd
- Pont Pedr
- Dyffryn Aeron, Felinfach
- Talybont
- Aberystwyth
- Penllwyn
- Deri Bach
- Tregaron

[33] Mudiad Meithrin (2025) Cylch Ti a Fi. Ar gael: Cylch Ti a Fi - Meithrin
[34] Mudiad Meithrin (2025) Cylch Meithrin. Ar gael: Cylchoedd Meithrin - Meithrin

- Llangeitho
- Glan y Mor
- Pontrhydfendigaid
- Llanfarian
- Ffrindiau Bach yr Eos

## 3.3 Gwasanaethau gofal plant

Ceir 6 meithrinfa Ddydd yng Ngheredigion, ac mae 83.3% (5 meithrinfa) yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.[35]

**Meithrinfeydd Dydd yng Ngheredigion (6)** [36]

- Gofal Plant Gogerddan Ltd
- Meithrinfa Little Angels
- Meithrinfa Camau Bach (Mudiad Meithrin)
- Meithrinfa Playdays
- Meithrinfa Seren Day Nursery
- Meithrinfa'r Enfys

Ceir 42 o warchodwyr plant cofrestredig yng Ngheredigion, ac mae dros hanner (61.9%/26), yn darparu eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn Saesneg ac yn Gymraeg.[37]

Yn ogystal, ceir 6 o Glybiau Ar ôl Ysgol cofrestredig yn y sir, y mae pob un ohonynt yn cynnig eu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. O blith y 3 Clwb Gwyliau yn y sir, mae 2 (66.6%) yn cynnig lleoliad Cymraeg neu ddwyieithog.[38]

Yn ôl Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Ceredigion (2022-2027), roedd 6 lleoliad yn cynnig gofal dydd llawn ac 83% yn cynnig lleoliad Cymraeg neu ddwyieithog. O blith y 29 lleoliad a oedd yn cynnig gofal sesiynol, roedd 89% yn cynnig lleoliad Cymraeg neu ddwyieithog. [39]

Yn ychwanegol i'r uchod, ceir 6 Canolfan Deulu ac 1 Canolfan Blant yn y sir – yn

---

[35] Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (2025) Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ceredigion. Ar gael: Gwybodaeth Gofal Plant Cymru - Child Care Information Wales

[36] Ibid.

[37] Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (2025) Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ceredigion. Ar gael: Gwybodaeth Gofal Plant Cymru - Child Care Information Wales

[38] Ibid.

[39] Cyngor Sir Ceredigion (2022) Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022-2027. Ar gael: Childcare Sufficiency Assessment 2022-2027

Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Tregaron, Borth, Penparcau, Aberaeron ac Aberteifi.[40] Nid yw patrwm y defnydd iaith yn y canolfannau hynny yn hysbys.

# 4.0 Addysg Cyfrwng Cymraeg

## 4.1 Trosolwg

Mae'r system addysg yn hanfodol er mwyn cyflwyno'r iaith Gymraeg i blant yn ystod y blynyddoedd cynnar, ac yn yr un modd, mae yr un mor bwysig i ddatblygiad y sgiliau hynny ymhlith plant ac oedolion ifanc, a'u cadw ymhlith y rhain.


Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i helpu disgyblion i feithrin y sgiliau i siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl ac yn hyderus. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd hyn yn eu grymuso i gymryd rhan lawn yn ein cymdeithas ddwyieithog, y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Ceredigion a Chymru.

Mae system addysg y sir wedi cael canmoliaeth dros y blynyddoedd am y cynnydd a sicrhawyd mewn nifer o agweddau ar y ddarpariaeth. Nod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion 2022-32, yw bod pob disgybl yn ysgolion yr awdurdod lleol yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg nes byddant yn saith oed, gan gynyddu'r cyfle i ddisgyblion ddilyn llwybr hollol ddwyieithog trwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol.

Dros y ddeugain mlynedd ddiwethaf, mae o leiaf dri chwarter y plant 5 i 14 oed yng Ngheredigion wedi bod yn gallu siarad Cymraeg. Rhwng 1991 a 2011, roedd canran y rhai 5 i 14 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu'n gyson, gan godi o 78.2% ym 1991 i uchafbwynt o 82.0% yn 2011. Byddai modd priodoli'r cynnydd hwn i effaith gadarnhaol darpariaeth gynyddol addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Ceredigion. Fodd bynnag, roedd Cyfrifiad 2021 wedi datgelu gostyngiad i 74.7%, gan ddynodi'r pwynt isaf mewn tair degawd (Ffigur 7). Gwelwyd tuedd debyg ar draws Cymru, wrth i'r cyfartaledd cenedlaethol ostwng 6 phwynt canrannol i 34.3%.

[40] Cyngor Sir Ceredigion (2025) Canolfannau Teuluoedd. Ar gael: Family Centres - Ceredigion County Council

Ffigur 7: Canran y plant a phobl ifanc 5-14 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngheredigion 1991-2021




*Ffynhonnell: NOMIS (2023)*[41]

Gellir priodoli'r dirywiad a welwyd yn ddiweddar o ran gallu plant oedran ysgol i fod yn gallu siarad Cymraeg, i gyfuniad o ffactorau, megis ffactorau demograffig, llai o drosglwyddiad rhwng cenedlaethau, ac effaith pandemig COVID-19 ar y defnydd o'r Gymraeg a'r ffordd y mae unigolion yn dirnad eu gallu ieithyddol. Canfu astudiaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru[42] bod y cyfnodau o arwahanrwydd estynedig i ffwrdd o athrawon a chymheiriaid a oedd yn siarad Cymraeg yn debygol o fod wedi cael effaith negyddol ar hyder ieithyddol a rhuglder plant. Gallai'r diffyg cyswllt hwn fod wedi effeithio ar dybiaethau disgyblion a rhieni nad ydynt yn siarad Cymraeg o allu'r plentyn, yn enwedig os oedd rhieni wedi llenwi ffurflen y cyfrifiad ar eu rhan.

## 4.2 Ysgolion Cynradd

Ceir 36 ysgol gynradd yng Ngheredigion – mae 31 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae 5 yn Ysgolion Categori 2 sy'n Trawsnewid, sy'n golygu y bydd y ddarpariaeth i blant dan 7 oed/diwedd blwyddyn 2 yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg erbyn mis Medi 2027. Cyflwynwyd y newid gan ddilyn y broses ddemocrataidd ar sail rhaglen dreigl ym mis Medi 2024. O flynyddoedd 3 i 6, bydd cyfran arwyddocaol o addysg cyfrwng Cymraeg a pharhad o ran sgiliau Cymraeg yn sicrhau bod yr Ysgolion hyn yn cyrraedd statws categori 2 o leiaf.

---

[41] NOMIS (2023). Sgiliau iaith Gymraeg (siarad) yn ôl blwyddyn oedran sengl. Ar gael: Nomis - Query Tool - TS076 - Welsh language skills (speaking) by single year of age.

[42] Llywodraeth Cymru (2022). Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID19: heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg. [Ar-lein]. Ar gael: covid-rs3-final-cy.pdf

Ysgolion cyfrwng Cymraeg[43]:

- Ysgol Gynradd Aberaeron
- Ysgol Gynradd Aberporth
- Ysgol Bro Siôn Cwilt
- Ysgol Bro Teifi
- Ysgol Gynradd Aberteifi
- Ysgol Gynradd Cenarth
- Ysgol Gynradd Craig Yr Wylfa
- Ysgol Dyffryn Aeron
- Ysgol Gynradd Dyffryn Cledlyn
- Ysgol Henry Richard
- Ysgol Gynradd Llanarth
- Ysgol Gynradd Llanfarian
- Ysgol Gynradd Llanfihangel-Y-Creuddyn
- Ysgol Gynradd Llangwyryfon
- Ysgol Gynradd Llanilar
- Ysgol Gynradd Llanon
- Ysgol Gynradd Llechryd
- Ysgol Gynradd Myfenydd
- Ysgol Gynradd Mynach
- Ysgol Gynradd Penllwyn
- Ysgol Gynradd Penparc
- Ysgol Gynradd Penrhyn-coch
- Ysgol Gynradd Pontrhydfendigaid
- Ysgol Gynradd Rhos Helyg
- Ysgol Gynradd Rhydypennau
- Ysgol Gynradd Syr John Rhys
- Ysgol T.Llew Jones
- Ysgol Gynradd Talgarreg
- Ysgol Gynradd Tal-y-bont
- Ysgol Gynradd Gymraeg
- Ysgol-Y-Dderi

Categori 2 Ysgolion Trawsnewid [44]:

- Ysgol Gynradd Commins Coch
- Ysgol Gynradd Llwyn Yr Eos
- Ysgol Gynradd Cei Newydd

[43] Cyngor Sir Ceredigion (2025) Ysgolion Ceredigion. Ar gael: Ceredigion Schools - Ceredigion County Council
[44] Cyngor Sir Ceredigion (2025) Ysgolion Ceredigion. Ar gael: Ceredigion Schools - Ceredigion County Council

- Ysgol Gynradd Plascrug
- Ysgol Gynradd Catholig Padarn Sant

Mae'r tabl isod yn dangos cyfrwng dysgu Cymraeg plant Cynradd yn y sir ym Mlwyddyn 2 a Blwyddyn 6.

Tabl 12: Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion ysgol gynradd – Ionawr 2025.

| | Addysg Cymraeg | Addysg Cymraeg |
|---|---|---|
| | nifer | % |
| Disgyblion Blwyddyn 2 | 516 | 81% |
| Disgyblion Blwyddyn 6 | 445 | 71% |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, 2025*

Ceir tair Canolfannau Iaith yng Ngheredigion , yn cynnwys:

- Canolfan y Castell - Ardal Aberteifi a Llandysul
- Canolfan y Felin - Ardal Tregaron ac Aberaeron
- Canolfan Penweddig - Ardal Aberystwyth

## 4.3 Ysgolion Uwchradd

Ceir 7 ysgol uwchradd yng Ngheredigion.  Cânt eu categoreiddio yn unol â'r ddogfen anstatudol "Canllawiau ar Gategoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg", a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion yng Nghymru ar sail cyfanswm yr addysg cyfrwng Cymraeg y maent yn ei ddarparu.  Mae'n cefnogi nodau Cymraeg 2050 a Chwricwlwm i Gymru, gan geisio helpu dysgwyr i ddod yn ddinasyddion dwyieithog.

Mae'r canllawiau yn symleiddio'r system flaenorol yn dri phrif gategori ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd:
Categori 1:  Cyfrwng Saesneg
Categori 2:  Dwy iaith
Categori 3:  Cyfrwng Cymraeg
Mae categori 3P yn is-gategori lle y mae 100% o ddisgyblion yn cyflawni 90% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.

*Categori 3 / 3P*

- *Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth 3*
- *Ysgol Bro Teifi 3P*
- *Ysgol Henry Richard 3*

*Trawsnewid – Categori 3*

- *Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan*
- *Ysgol Gyfun Aberaeron*

- *Ysgol Uwchradd Aberteifi*

*Categori 1*
- *Ysgol Gyfun Penglais, Aberystwyth*

Tabl 13: Disgyblion ysgol uwchradd a ddysgwyd yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf – Ionawr 2025.

| | Addysg Cymraeg nifer | Addysg Cymraeg % |
|---|---|---|
| **Blwyddyn 9** | 439 | 61% |
| **Blwyddyn 11** | 435 | 68% |

*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ceredigion, 2025*

## 4.4 Addysg Pellach

### 4.4.1 Coleg Ceredigion

Mae gan Goleg Ceredigion ddau safle yn y sir – yn Aberystwyth ac yn Aberteifi.

Mae 610 o fyfyrwyr amser llawn yng Ngholeg Ceredigion.[45] Mae 169 (27.7%) o'r myfyrwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ac mae 179 (29.3%) pellach yn siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl.

Mae'n bolisi gan y coleg gynnig pob cwrs a ddarparir yn yr iaith a ffafrir gan y myfyriwr.

### 4.4.2 Tîm Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Mae'r gwasanaeth Dysgu a Sgiliau Gydol Oes yn cynnwys tri maes gwasanaeth allweddol: Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Dysgu Bro, a'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd.

Mae Hyfforddiant Ceredigion Training HCT yn darparu cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol i ddysgwyr o bob oed. Cynlluniwyd rhaglenni i ddatblygu sgiliau ymarferol ac sy'n gysylltiedig â gwaith, ac maent yn cynnwys:
- Y Cwricwlwm Amgen
- Rhaglenni yn yr ysgol
- Twf Swyddi Cymru+
- Prentisiaethau

Mae'r cyrsiau hyn yn cynorthwyo dilyniant i mewn i gyflogaeth, addysg bellach, neu hyfforddiant.

[45] Coleg Ceredigion (2025) Nifer y cofrestriadau.

Mae Dysgu Bro yn darparu dysgu cymunedol ar draws Ceredigion, gan alluogi unigolion i:

- Ddarganfod diddordebau newydd
- Sicrhau cymwysterau cydnabyddedig
- Gwella sgiliau yn y gweithle

Mae cyrsiau ar gael mewn fformatiau amrywiol, gan gynnwys ar-lein, wyneb yn wyneb, a phlatfformau e-ddysgu, gan sicrhau hyblygrwydd a chynwysoldeb.

Mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd yn arwain rhaglen Cymunedau am Waith+, a gynlluniwyd i wella cyflogadwyedd unigolion trwy:

- Feithrin sgiliau hanfodol
- Cynorthwyo mynediad i gyfleoedd cyflogaeth ystyrlon
- Hwyluso dilyniant i rolau sy'n talu'n uwch

Mae'r cymorth hwn wedi'i dargedu yn galluogi cyfranogwyr i oresgyn rhwystrau wrth sicrhau cyflogaeth a chanlyniadau gyrfa cynaliadwy yn y tymor hir.

**Ymrwymiad i'r Iaith Gymraeg mewn Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:**

Mae tua 75% o'r staff yn y gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ddwyieithog, gan alluogi cyfleoedd i gynorthwyo dysgwyr yn eu dewis iaith. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig ar draws pob maes darparu, a'r nod yw cynnig yr holl gyrsiau yn ddwyieithog pryd bynnag y bo modd.

Ceir tri aelod o staff sy'n cael hyfforddiant Cymraeg ar hyn o bryd, a ddarparir gan yr awdurdod lleol, sy'n gwella y gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn cynnal arolwg blynyddol Llais y Dysgwr sy'n cynnwys cwestiynau wedi'u targedu am yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Yn yr arolwg mwyaf diweddar, cadarnhaodd 95% o'r ymatebwyr eu bod yn gallu defnyddio eu dewis iaith. Mae'r adborth gwerthfawr hwn yn cyfrannu at y Cynllun Datblygu Ansawdd yn uniongyrchol, gan gynorthwyo gwelliannau parhaus o ran cynwysoldeb ieithyddol a pherthnasedd ddiwylliannol ar draws ein darpariaeth.

Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn bresennol yn cynnwys:

- Diwygio ac ehangu adnoddau Cymraeg, gan roi pwyslais penodol ar offerynnau digidol a chynnwys rhyngweithiol er mwyn gwella gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr.
- Cynllunio gweithgareddau dysgu cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru, gan sicrhau perthnasedd a hygyrchedd i bob dysgwr.
- Sefydlu Gweithgor yr Iaith Gymraeg er mwyn cynorthwyo datblygiad sgiliau Cymraeg dysgwyr trwy gyfrwng gweithgareddau strwythuredig, ymgyrchoedd

hyrwyddo, a mentrau marchnata wedi'u targedu.

**Rhaglen Brentisiaeth:**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025, llwyddodd 24 o ddysgwyr i gwblhau eu rhaglenni prentisiaeth. Bu pob dysgwr yn ymwneud â gweithgareddau dysgu a oedd yn cynnwys elfennau o gyfarwyddyd trwy gyfrwng y Gymraeg, a ddosbarthwyd dan gategori B3 (swm bach o ddysgu cyfrwng Cymraeg).

Yn ychwanegol i hyn, roedd gan 62% o ddysgwyr gymhwyster Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddechrau'r rhaglen.

**Rhaglen Twf Swyddi Cymru:**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025, llwyddodd 53 o ddysgwyr i gwblhau rhaglen Twf Swyddi Cymru.

- Roedd 7% o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a ddarparwyd trwy gyfrwng swm sylweddol o gyfarwyddyd cyfrwng Cymraeg (Categori B2).
- Roedd 93% o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn cynnwys swm bychan o gyfarwyddyd cyfrwng Cymraeg (Categori B3).
- Roedd gan 17% o ddysgwyr gymhwyster Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddechrau'r rhaglen.

**Tabl Crynodeb:**

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r metrig allweddol ar draws y ddau rhaglen:

| Rhaglen | Cyfanswm y Dysgwyr Cwblhawyd | B2 - Dysgu Cyfrwng Cymraeg Sylweddol (%) | B3 - Dysgu Cyfrwng Cymraeg Bach (%) | Cymraeg Iaith Gyntaf o'r Cychwyn (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Prentisiaethau** | 24 | 0 | 100 | 62 |
| **Twf Swyddi Cymru** | 53 | 7 | 93 | 17 |

**Dysgu Bro a'r Tîm Cefnogi Cyflogaeth**

Mae Dysgu Bro yn parhau i arwain Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Ceredigion, sydd wedi ehangu ei haelodaeth yn ddiweddar er mwyn cynnwys Urdd Gobaith Cymru a Swyddog Iaith Gymraeg Ceredigion (sy'n cynrychioli Cered hefyd). Disgwylir i'r datblygiad hwn gryfhau'r cysylltiadau gyda grwpiau cymunedol Cymraeg, gan helpu i gyfrannu at natur a lleoliad darpariaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, mae cylch gwaith ehangach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sgiliaith yn cynnig cyfleoedd i drefnu sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer staff Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL).

Yn ystod Wythnos Addysg Oedolion 2024, cynhaliodd Dysgu Bro gyfres o sesiynau blasu lle'r estynnwyd gwahoddiad i gyfranogwyr rannu eu safbwyntiau am y cyrsiau y byddent yn eu ffafrio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mynegwyd dewis clir gan y sawl a oedd wedi mynychu'r sesiwn yn Nhregaron, ardal lle y ceir poblogaeth gadarn sy'n siarad Cymraeg, i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un wedi archebu lle ar sesiwn ynghylch diogelwch ar-lein a gynhaliwyd yn Nhregaron yn ddiweddar trwy gyfrwng y Gymraeg, gan amlygu'r angen am weithgarwch ymgysylltu pellach a dealltwriaeth o'r galw lleol.

Fel rhan o brosiect Lluosi, bu Dysgu Bro yn cydweithio â Cered i ddarparu cwrs crefft cyfrwng Cymraeg ar gyfer grŵp cymunedol sefydledig. Cynigiwyd cwrs Lluosi arall i gangen CFfI leol, gan gyd-fynd â'u paratoadau ar gyfer yr Eisteddfod a hyrwyddo dysgu cyfrwng Cymraeg ymhellach. Mae cwrs TG wythnosol wedi cychwyn yn Llandysul, a ddarparir trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y fenter hon yn deillio o sesiwn flasu gychwynnol a gynhaliwyd ar gyfer Merched y Wawr, ac mae wedi cael ei hyrwyddo ar y cyd â Phartneriaeth ACL Sir Gaerfyrddin, o ystyried pa mor agos yw'r lleoliad i'r ffin gyda'r sir gyfagos.

Mae Dysgu Bro yn parhau ei phartneriaeth gyda Thîm Cymorth i Ffoaduriaid y cyngor, gan gynnig cwrs 'Cymraeg Bob Dydd' wythnosol. Mae dysgwyr wedi gweithio tuag at sicrhau achrediad, a bu rhugldeb y tiwtor mewn Rwsieg, Saesneg a Chymraeg yn arbennig o fuddiol ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin, y mae rhai ohonynt wedi symud ymlaen i gyrsiau ICDL achrededig.

Mae'r Tîm Cymorth Cyflogaeth wedi ymgysylltu â busnesau lleol er mwyn darparu gweithdai ar gyfer sectorau penodol mewn meysydd megis lletygarwch a thwristiaeth, gwasanaethau glanhau, adeiladu a hyfforddiant barista. Darparwyd y gweithdai hyn trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynorthwyo datblygiad gweithlu dwyieithog.

Hyd yn hyn, mae 1,246 o ddysgwyr a chyfranogwyr wedi cofrestru ar amrediad o gyrsiau a gweithdai, a nodwyd bod 31% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn amlygu arwyddocâd parhaus darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes addysg oedolion, datblygu sgiliau, a llwybrau cyflogaeth.

# 5.0 Gweithgareddau Plant ac Ieuenctid

## 5.1 Ffermwyr Ifanc Ceredigion

Sefydlwyd Clybiau Ffermwyr Ifanc (C.Ff.I) yng Ngheredigion ym mis Hydref 1941. Mae mudiad y Ffermwyr Ifanc yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg bron yn llwyr, ac mae'n darparu ystod o weithgareddau i'w aelodau.[46]

Ceir un ar bymtheg o glybiau yng Ngheredigion, yn y lleoliadau canlynol [47]:

| | |
|---|---|
| Bro'r Dderi | Lledrod |
| Caerwedros | Mydroilyn |
| Felinfach | Penparc |
| Llanddeiniol | Pontsian |
| Llanddewi Brefi | Talybont |
| Llangeitho | Trisant |
| Llangwyryfon | Troedyraur |
| Llanwenog | Tregaron |

Credir bod gan y clybiau dros 700 o aelodau, o Ben-parc yn ne Ceredigion i Dal-y-bont yng ngogledd Ceredigion.[48]

## 5.2 Urdd Gobaith Cymru

Mae gan Fudiad Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol Urdd Gobaith Cymru dros 55,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed ar draws Cymru. Mae'r Mudiad yn cynnig cyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg i blant a phobl ifanc ac mae'n eu galluogi i wneud cyfraniadau cadarnhaol i gymunedau.[49] Mae gan yr Urdd gysylltiad hanesyddol cryf â Cheredigion; bu prif swyddfa y mudiad yn Aberystwyth am sawl degawd a Gwersyll Llangrannog oedd canolfan barhaol gyntaf yr Urdd.[50]

Yn 2025, mae gan yr Urdd 7 o Adrannau'r Urdd ar draws Ceredigion.

- Talgarreg
- Llanbedr Pont Steffan
- Bro Silian
- Bro Ilar
- Dyffryn Aeron

[46] C.FF.I Ceredigion Y.F.C (2025) Amdano ni. Ar gael: About Us | CFfI Ceredigion YFC
[47] Cyngor Sir Ceredeigion (2025) "Pa sefydliadau, clybiau, digwyddiadau a gweithgareddau sydd ar gael yng Ngheredigion drwy gyfrwng y Gymraeg?"
[48] C.FF.I Ceredigion Y.F.C (2025) Amdano ni. Ar gael: About Us | CFfI Ceredigion YFC
[49] Urdd Gobaith Cymru (2025) Amdano ni. Ar gael: About Us | Urdd Gobaith Cymru
[50] Urdd Gobaith Cymru (2025) Llangrannog. Ar gael: History | Urdd Gobaith Cymru

- Aberystwyth
- Seithenyn

Roedd 5 Aelwydydd Urdd yng Ngheredigion:

- Pantycelyn
- Aelwyd Hŷn Aberystwyth
- Aelwyd Hŷn Llambed
- Trefechan
- Dynamik

Yn ogystal, roedd canghennau pellach o'r Urdd yng Ngheredigion, yn y lleoliadau canlynol:

- 37 ysgol gynradd
- 4 ysgol uwchradd
- 3 ysgol gydol oed
- 2 coleg addysg pellach
- 1 ysgol cerddoriaeth arbenigol
- 1 Prifysgol

Ym mis Mawrth 2025, roedd gan yr Urdd 3,414 o aelodau yng Ngheredigion..

## 5.3 Cered: Menter Iaith Ceredigion

Cyfeiriwch ar adran 7.1 am wybodaeth ar Cered: Menter Iaith Ceredigion.

## 5.4 Theatr Felinfach

Cyfeiriwch ar adran 7.2 am wybodaeth ar Theatr Felinfach.

## 5.5 Clybiau Chwaraeon

Ceir nifer fawr o glybiau chwaraeon yn y Sir sy'n cynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc, ac mae nifer ohonynt yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg a/neu fel eu prif iaith. Yn ôl yr Arolwg Chwaraeon Ysgol (2022), roedd bron i hanner (46%) y rhai sy'n siarad Cymraeg yng Ngheredigion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith yr wythnos neu fwy, o'i gymharu â 33% o'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae 25% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn cael hyfforddiant yn Gymraeg y tu allan i'r ysgol.[51]

Ceir nifer o ganolfannau hamdden, pyllau nofio a chanolfannau lles wedi'u lleoli ar

[51] ChwareonCymru (2022) Arolwg Chwaraeon Ysgol. Ar gael: Appendix B.pdf

draws y sir (Aberystwyth, Tregaron, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Llandysul ac Aberteifi). Nid oes data ar gael am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y canolfannau hyn, ond mae Ceredigion Actif yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau yn cael eu rhedeg mewn ffordd ddwyieithog.

# 6.0 Cymraeg i Oedolion

Gall oedolion ddysgu Cymraeg yng Ngheredigion trwy gyfrwng rhaglen Dysgu Cymraeg Prifysgol Aberystwyth, a gaiff ei rhedeg ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar wahanol lefelau, o lefel mynediad i lefel rhugl. Mae cyfleoedd i oedolion gwblhau cwrs Cymraeg yn y cartref hefyd, sy'n cynnig y cyfle i rieni / gofalwyr ddysgu Cymraeg sy'n briodol ar gyfer bywyd teuluol. Mae Cymraeg yn y Gweithlu yn gwrs arall a gynigir gan y sefydliad Dysgu Cymraeg, lle y gall gweithluoedd fynychu dosbarthiadau yn ystod oriau gwaith, ar-lein neu wyneb yn wyneb.[52]

Roedd tua 697 o unigolion o Geredigion wedi cofrestru gyda'r ganolfan ym mlwyddyn academaidd 2024/25 ar gyfer y cyrsiau prif ffrwd.

Mae tabl 14 isod yn nodi bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dysgu wyneb yn wyneb, ond ers pandemig COVID-19, bu cynnydd yn nifer y cyrsiau sydd ar gael ar-lein a nifer y bobl sy'n manteisio ar gyrsiau ar-lein.

Tabl 14: Nifer y dysgwyr yn ôl dull dysgu

| Dull Dysgu | Nifer sydd wedi cofrestru |
|---|---|
| Wyneb yn wyneb | 415 |
| Dosbarth Ar-lein (Zoom) | 269 |
| Cyfunol Ar-lein | 13 |
| **Cyfanswm** | **697** |

*Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg Ceredigion, 2025*

Mae tabl 15 yn nodi bod rhan fwyaf y dysgwyr yng Ngheredigion ar gyrsiau lefel Mynediad, ond mae'n obeithiol gweld bod 105 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau estynedig, sef y lefel uchaf.

**Tabl 15: Nifer y dysgwyr cofrestredig yn ôl lefel dysgu.**

| Lefel y Cwrs | Dysgwyr Cofrestredig |
|---|---|
| Mynediad | 280 |
| Sylfaen | 192 |
| Canolradd | 89 |
| Uwch | 105 |
| Gloywi | 31 |

*Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg Ceredigion, 2025*

[52] Prifysgol Aberystwyth University (2025) Dysgu Cymraeg. Ar gael: Learn Welsh : Aberystwyth University

Isod, mae tabl 16 yn dangos bod nifer fawr o bobl (254 o bobl) yn defnyddio'r cwrs haf dwys yn Aberystwyth, sydd yn aml yn ffordd boblogaidd o ddysgu ac sy'n galluogi dysgu dros gyfnod byrrach.

Tabl 16: Nifer y dysgwyr cofrestredig yn ôl lefel dysgu a lleoliad.

| | Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch | Gloywi | Wedi Cofrestru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aberteifi** | 32 | 49 | 0 | 5 | 0 | 86 |
| **Aberystwyth** | 102 | 54 | 0 | 0 | 0 | 156 |
| **Aberystwyth (Cwrs Haf Dwys)** | 51 | 50 | 40 | 96 | 17 | 254 |
| **Caerwedros** | 18 | 0 | 0 | 0 | 0 | 18 |
| **Llanbedr Pont Steffan** | 32 | 30 | 12 | 0 | 0 | 74 |
| **Llandysul** | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 |
| **Pontarfynach** | 21 | 0 | 0 | 0 | 13 | 34 |
| **Pontagrreg** | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| **Ystrad Meurig** | 0 | 0 | 0 | 10 | 0 | 10 |

*Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg Ceredigion, 2025*

Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai pob person ifanc 18 i 25 oed yn gymwys i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg am ddim, trwy gyfrwng y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn ogystal, cynigiwyd gwersi Cymraeg am ddim i bob athro, pennaeth a chynorthwyydd addysgu.[53] Roedd hyn yn rhan o fenter Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050. Trwy hyn, roedd dros 3,200 o bobl wedi cael budd o'r cyrsiau Cymraeg am ddim hyn ar draws Cymru rhwng 2023 a 2024.[54]

# 7.0 Gweithgareddau Cymunedol Cymraeg

[53] Llywodraeth Cymru (2022) Gwersi Cymraeg am ddim bellach ar gael i bobl 18 i 25 mlwydd oed ac i staff addysgu. Ar gael: Gwersi Cymraeg am ddim bellach ar gael i bobl 18 i 25 mlwydd oed ac i staff addysgu | LLYW.CYMRU

[54] Llywodraeth Cymru (2024) Dysgwch sgil newydd ym mis Medi - gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc ac athrawon. Ar gael: Dysgwch sgil newydd ym mis Medi - gwersi Cymraeg am ddim i bobl ifanc ac athrawon | LLYW.CYMRU

## 7.1 Cered: Menter Iaith Ceredigion

Cered: Menter Iaith Ceredigion yw menter ddatblygu y sir ar gyfer yr iaith Gymraeg ac mae'n rhan o Wasanaeth Ysgolion a Diwylliant y Cyngor Sir ac yn rhan o'r rhwydwaith Mentrau Iaith cenedlaethol.

Sefydlwyd y Fenter Iaith gyntaf ym 1991 yn Sir Gaerfyrddin a sefydlwyd mentrau tebyg ar draws Cymru. Sefydlwyd Cered yn 2000. Ar hyn o bryd, ceir 22 o Fentrau Iaith yng Nghymru, ym mhob sir ar draws y wlad.

Prif nod Cered yw cynorthwyo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol fyw yng Ngheredigion. Cyflawnir hyn trwy ddarparu gweithgareddau, gwybodaeth, cymorth, cyngor ac arweinyddiaeth. Mae swyddogion Cered yn cynnal ac yn cynorthwyo ystod eang o brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau ar draws Ceredigion ar gyfer oedrannau, diddordebau a gallu ieithyddol amrywiol.

Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

- Sach Stori – sesiynau stori, canu a chwarae ar gyfer plant 0-3 oed
- Clwb Lego – clybiau Lego a gweithdai yn ystod y gwyliau ysgol ar gyfer plant 7-11 oed
- Cynllun Gohebwyr Chwaraeon Ifanc – ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed
- Gigs Cymraeg Ceredigion – gigs Cymraeg rheolaidd ar draws y sir
- Ar Gered – teithiau tywys misol ym mryniau Elenydd
- Iwcadwli – grŵp iwcalili Cymraeg
- Hel Atgofion – cerddoriaeth a gweithgareddau ar gyfer preswylwyr cartrefi gofal
- Siop Siarad – nifer o grwpiau sgwrsio anffurfiol ar gyfer y rhai sy'n dysgu Cymraeg
- Gorymdeithiau Dydd Gŵyl Dewi – trefnu a chynorthwyo Gorymdeithiau ar draws Ceredigion

## 7.2 Theatr Felinfach

- Mae Theatr Felin-fach yn rhan allweddol o dirlun y diwylliant Cymreig yng Ngheredigion. Mae gan y Theatr draddodiad cryf o waith plant a gwaith ieuenctid. Yn ogystal â chynnig gwasanaeth cynghori i ysgolion a grwpiau cymunedol, trefnir y gweithgareddau canlynol yn benodol:
- Tic Toc – sesiynau stori, dawns a chanu ar gyfer plant 0-3 oed
- Symud a Sŵn – clwb drama ar gyfer plant 4-6 oed
- Dramatig – sesiynau creadigol ar gyfer plant 7–11 oed
- Ysgol Berfformio – ysgol berfformio ar gyfer plant 7–11 oed ac 11–18 oed
- Fel Un – Grŵp drama Cymraeg i bawb 18+
- Hwyl a Hamdden – sesiynau cymdeithasol ar gyfer pobl dros 50 oed bob prynhawn

dydd Mercher (yn ystod y Tymor Ysgol) [55]

Yn ogystal, anogir pobl ifanc i gymryd rhan mewn cynyrchiadau fel y pantomeim blynyddol enwog a Chwmni Actorion Theatr Felin-fach.

## 7.3 Merched y Wawr

Ceir 35 o ganghennau Merched y Wawr yng Ngheredigion, a 7 Clwb Gwawr. Mae'r canghennau yn cyfarfod yn y mannau canlynol:
Merched y Wawr:

| | | |
|---|---|---|
| Aberporth | Cylch Emlyn | Llanbedr Pont Steffan |
| Aberystwyth | Cylch Teifi | Llandysul a'r cylch |
| Beulah | Cylch Wyre | Llanfarian a'r cylch |
| Bro Cranogwen | Cylch y Mwnt | Llanon |
| Bro Ilar | Felinfach a'r Cylch | Llanybydder |
| Bronant | Genau'r Glyn | Llwynpiod |
| Cylch Aeron | Llanafan | Ffair-rhos a'r cylch |
| Melindwr | Rhyd-y-pennau | Y Bryniau |
| Mynach a'r cylch | Talgarreg | Y Dderi |
| Penrhyn-coch | Talybont a'r cylch | Llangwyryfon |
| Y Garreg Wen | Yr Hafod | |
| Tregaron | | |

Clybiau Gwawr:

- Clwb Gwawr Angylion Aber
- Clwb Gwawr Bro Tysul
- Clwb Gwawr Cwmann
- Clwb Gwawr Cylch Cennin
- Clwb Gwawr Glannau Teifi
- Clwb Gwawr y Gwenoliaid
- Clwb Gwawr y Pennau

## 7.4 Yr Hoelion Wyth

Mae'r Hoelion Wyth yn gymdeithas ddiwylliannol Gymraeg i ddynion. Mae'n cynnig y cyfle i ddynion ddod ynghyd a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir tair cangen yng Ngheredigion:

- Siôn Cwilt
- Cors Caron

[55] Theatr Felinfach (2025). Ar gael: Cyfranogi

- Aber-porth

## 7.5 Cylchoedd Cinio

Mae nifer o 'Gylchoedd Cinio' yn cwrdd yn Gymraeg yn y sir gan gynnwys Aberystwyth, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul gan gynnwys Merched Glannau Teifi a Chylch Cinio Aberteifi.

## 7.6 Papurau Cymunedol

Mae yna 10 Papur Bro yn cael i'w cyhoeddi yn y Sir, rhain ydy:

- Y Garthen
- Y Gambo
- Y Ddolen
- Y Tincer
- Clonc
- Y Barcud
- Llais Aeron
- Papur Pawb
- Yr Angor
- Y Dwrgi

## 7.7 Eisteddfodau Lleol

Cynhelir 21 o eisteddfodau lleol yng Ngheredigion. Nodir lleoliadau'r eisteddfodau hynny isod:

Aberystwyth
Bryngwenith
Capel Dewi
Capel y Groes, Llanwnnen
Castellnewydd Emlyn a'r Cylch
Capel M.C. Cenarth
Cwm Ystwyth
Y Ddolen, Llanrhystud
Felinfach
Gŵyl Fawr Aberteifi

Llanarth
Llanbedr Pont Steffan (Pantyfedwen)
Dihewyd
Penrhyn-coch
Pontrhydfendigaid (Pantyfedwen)
Rhydlewis
Swyddffynnon
Talgarreg
Tregaron
Cymdeithas Ceredigion, Tanygroes

## 7.8 Timau Talwrn y Beirdd

Mae cystadlaethau barddoniaeth yn parhau i fod yn boblogaidd yng Ngheredigion, a cheir sawl tîm Talwrn y Beirdd yn y sir, gan gynnwys:

- Crannog- Llandysul/Llanbed
- Glannau Teifi- Aberteifi
- Tafarn Y Vale- Dyffryn Aeron
- Talybont – Aberystwyth
- Y Cŵps – Aberystwyth
- Y Glêr- Aberystwyth
- Y Derwyddon- Ceredigion a Sir Gar
- Tîm O Bob Cwr – rhai aelodau yn Aberystwyth.

## 7.9 Gwyliau Lleol

Cynhelir nifer o wyliau cerddorol a diwylliannol Cymraeg penodol ar draws y sir, gan gynnwys:

- Gwyl Fawr Aberteifi
- Tregaroc (Tregaron)
- Gŵyl y Castell (Aberystwyth)
- Gwobrau Seler

## 7.10 Drama Cymraeg

Mae Theatr Felin-fach a'i gweithgareddau yn ganolbwynt ar gyfer drama yn y sir. Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn gwmni lleol, cenedlaethol a rhyngwladol sy'n creu theatr arloesol ac o safon uchel ar gyfer plant a phobl ifanc, a gyda phlant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae Cwmni Theatr Gydweithredol Troed-y-rhiw yn darparu amrywiaeth o gynyrchiadau creadigol sy'n ceisio creu partneriaeth rhwng y cwmni a chymdogaethau Cymraeg ar draws Cymru.

## 7.11 Cyfryngau Cymraeg

Mae gan ddiwydiant y cyfryngau bresenoldeb yn y sir hefyd, gyda chwmnïau fel Wes Glei wedi'u lleoli yn y sir.

Mae Recordiau Fflach, sydd bellach yn dwyn yr enw Recordiau Fflach Cymunedol, wedi bod yn weithredol yn Aberteifi am dros ugain mlynedd, a chynhelir noson wobrwyo cylchgrawn Y Selar yn Aberystwyth bob blwyddyn.

# 8.0 Sefydliadau Cymraeg

Lleolir pencadlys a phrif swyddfeydd nifer o sefydliadau a busnesau Cymraeg amlwg yng Ngheredigion. Mae eu presenoldeb yn sicrhau bod proffil cyhoeddus yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnal yn y sir, bod cyflogaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i nifer fawr o breswylwyr y sir a bod rhwydweithiau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cryfhau. Mae cynnal a chynyddu presenoldeb sefydliadau o'r fath yn bwysig i hyfywedd yr iaith Gymraeg yn y sir. Rhestrir rhai o'r prif sefydliadau isod:

**Sector Cyhoeddus:**
- Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth
- Cyngor Sir Ceredigion, Aberystwyth ac Aberaeron
- Llywodraeth Cymru, Aberystwyth
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Trydydd Sector Cymreig**

**Menter a Busnes:**

- Gwersyll yr Urdd Llangrannog
- Merched y Wawr, Aberystwyth
- Mudiad Meithrin, Aberystwyth
- CFfI Ceredigion, Felin-fach
- Mentera

**Addysg**:

- Prifysgol Aberystwyth
- Coleg Ceredigion, Aberystwyth ac Aberteifi
- Prifysgol y Drindod Dewi Sant

**Y Celfyddydau, Cyhoeddi a'r Cyfryngau:**

- Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth
- Gwasg Gomer, Llandysul
- Y Lolfa, Tal-y-bont
- Golwg a Golwg 360, Llanbedr Pont Steffan
- Theatr Felin-fach
- Theatr Arad Goch, Aberystwyth
- Atebol

# 9.0 I Gloi

Mae Proffil Iaith Ceredigion 2025 yn rhoi trosolwg o'r Gymraeg yng Ngheredigion yn 2025 drwy ddarparu darlun o ddefnydd, trosglwyddiad a chefnogaeth y Gymraeg yn y Sir.

Mae sefyllfa'r Gymraeg yn newid yn gyson ac mae angen ystyried nifer o bethau wrth ddadansoddi'r proffil hwn gan gynnwys datblygiadau arloesol Cynllun Strategol Addysg Gymraeg Ceredigion, Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2024-2029 a rol Fforwm Dyfodol Dwyieithog wrth weithredu a monitro'r Strategaeth hon. Yn lleol i ni yng Ngheredigion mae'n bwysig cymryd i ystyriaeth gweithgaredd sefydliadau a chyrff sy'n hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned gan gynnwys gweithgaerddau cymunedol y Fenter Iaith: CERED.. Mae cyfraniad y CSGA hefyd yn debygol o gael effaith bositif ar y proffil dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Cymraeg 2050 yn gosod nod glir ar gyfer datblygiad defnydd yr iaith sef gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050.

Bydd Proffil Iaith Ceredigion 2025 yn fodd o roi cymorth i lywio cynllunio a buddsoddiad lleol wrth hyrwyddo'r iaith yn ein sir.

## 9.1 Dadansoddiad SWOT 2025

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| • Ceredigion yn un o gadarnleoedd y Gymraeg<br>• Strategaeth Iaith Ceredigion 2024-2029 yn hybu a hyrwyddo'r iaith yng Ngheredigion.<br>• Fforwm Iaith Dyfodol Dwyieithog dan arweinyddiaeth Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau cydweithio rhwng partneriaid<br>• CSGA 2022-2032 - cynllun statudol gan Gyngor Sir Ceredigion i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn addysg<br>• Gweithgareddau amrywiol gan Cered | • Prisiau tai a'i fforddiadwyedd i bobl lleol<br>• Gostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg yn dilyn canlyniadadau Cyfrifiad 2021<br>• Effaith dirwasgiad ar gymunedau Cymru<br>• Lefel cyflogau cyfartaledd yn isel<br>• Tlodi gwledig a threfol a newidiadau mewn mathau o dlodi h.y. cyfartaledd cyflog byw<br>• Ansicrwydd ynghylch cyllid a rhaglenni cronfeydd<br>• Nifer uchel o bobl hŷn<br>• Prinder arweinwyr cymunedol a diffyg olyniaeth<br>• Prinder gwirfoddolwyr |

| | |
|---|---|
| • Gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050<br>• Mesur y Gymraeg 2011 – normaleiddio defnydd o'r Gymraeg<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Strategaeth Economi  Ceredigion<br>• Lwyddiant rhaglen ARFOR i gefnogi busnesau lleol ac i greu swyddi yng Ngheredigion<br>• Awydd yn lleol i ddefnyddio ac ymfalchïo yn y Gymraeg<br>• Ystod o weithgareddau Cymraeg ar gael i bob oed yng Ngheredigion<br>• Cyfleoedd gwirfoddoli<br>• Defnydd o dechnoleg ar draws rhychwant oedran<br>• Rhwydweithiau cymdeithasol<br>• Adnoddau ar gael i'w benthyg<br>• Pencadlys a phrif swyddfeydd nifer o sefydliadau a busnesau Cymraeg amlwg wedi'u lleoli yng Ngheredigion | • Yr isadeiledd TG o fewn yr ardal yn amrywio<br>• Natur wasgaredig y boblogaeth<br>• Diffyg cyd-gynllunio, dyblygu a chystadleuaeth rhwng sefydliadau<br>• Heriau cymhathu mewnfudwyr i gymunedau Cymreig<br>• Problemau trosglwyddo iaith<br>• Diffyg hyder i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Tueddiad gan bobl ifanc i beidio defnyddio'r Gymraeg<br>• Diffyg cyfleoedd digidol Cymraeg i bobl ifanc. |
| **Bygythiadau**<br>• Sgil effeithiau llymder, ar yr economi a gwasanaethau lleol<br>• Prisiau tai a'i fforddiadwyedd i bobl lleol<br>• Ffocws ar etholiad nesaf Senedd Cymru<br>• Canlyniad etholiadau nesaf Senedd Cymru, un blaid yn arwain neu clymbleidio<br>• Poblogaeth Cymru / yr ardal yn heneiddio | **Cyfleoedd**<br>• Deddfu ar gyfer ail gartrefi<br>• Ffocws ar etholiad nesaf Senedd Cymru<br>• Argymhellion Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg - ymchwil ac argymhellion ar gymunedau sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg.<br>• Potensial am gonsensws gwleidyddol i'r Gymraeg |

| | |
|---|---|
| • Effaith mewnfudo pobl hyn ac allfudo pobl ifanc<br>• Agweddau negyddol rhai tuag at y Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd economaidd | • Cyfleoedd i fwydo mewn i raglenni economaidd rhanbarthol a’r economi sylfaenol.<br>• Cyfleoedd i greu a datblygu mentrau economaidd a chymdeithasol<br>• Cyfle i ddatblygu mentrau newydd yn seiliedig ar dechnoleg<br>• Defnyddio technoleg i leihau costau<br>• Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las 2026 yn gyfle i hybu a hyrwyddo’r Gymraeg yn ein cymunedau.<br>• Dynodiad Dinas Llen UNESCO yn gyfle i dynnu sylw at lenyddiaeth a gweithgaredd llenyddol yn Gymraeg |

# Atodiad 1

Sgiliau Iaith Cymraeg Ceredigion yn ôl Ward – niferoedd.

| | Oll | Medru Siarad Cymraeg | Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig | Dim sgiliau yn y Gymraeg |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberaeron and Aberarth | 1,731 | 974 | 792 | 156 | 554 |
| Aberporth and Y Ferwig | 3,244 | 1,589 | 1,292 | 278 | 1,304 |
| Aberystwyth Morfa a Glais | 5,505 | 1,623 | 1,373 | 307 | 3,434 |
| Aberystwyth Penparcau | 2,857 | 922 | 681 | 424 | 1,417 |
| Aberystwyth Rheidol | 2,149 | 592 | 483 | 187 | 1,301 |
| Beulah a Llangoedmor | 2,837 | 1,373 | 1,134 | 231 | 1,176 |
| Borth | 1,916 | 804 | 665 | 182 | 885 |
| Ceulan a Maesmawr | 1,835 | 961 | 813 | 170 | 658 |
| Ciliau Aeron | 1,876 | 978 | 843 | 183 | 692 |
| Faenor | 3,430 | 951 | 771 | 183 | 2,199 |
| Llanbedr Pont Steffan | 2,441 | 1,192 | 932 | 198 | 992 |
| Llanbadarn Fawr | 2,439 | 824 | 656 | 205 | 1,310 |
| Llandyfriog | 1,723 | 860 | 687 | 159 | 674 |
| Llandysilio a Llangrannog | 1,705 | 813 | 696 | 140 | 726 |
| Gogledd Llandysul a Troedyraur | 2,068 | 1,030 | 869 | 126 | 869 |
| De Llandysul | 1,774 | 942 | 777 | 136 | 640 |
| Llanfarian | 1,485 | 790 | 649 | 177 | 471 |
| Llanfihangel Ystrad | 1,995 | 1,053 | 870 | 136 | 763 |
| Llangeitho | 1,335 | 633 | 528 | 99 | 555 |
| Llangybi | 1,368 | 599 | 474 | 89 | 641 |
| Llannarth | 1,523 | 732 | 626 | 133 | 634 |
| Llanrhystyd | 1,508 | 791 | 675 | 110 | 552 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llansanffraid (Ceredigion) | 1,790 | 853 | 711 | 148 | 747 |
| Llanwenog | 1,702 | 893 | 764 | 118 | 642 |
| Lledrod | 1,456 | 722 | 643 | 106 | 603 |
| Melindwr | 1,959 | 964 | 811 | 165 | 783 |
| Mwldan | 1,820 | 997 | 762 | 191 | 569 |
| Ceinewydd a Llanllwchaearn | 1,695 | 693 | 559 | 148 | 809 |
| Penbryn | 1,252 | 572 | 490 | 103 | 554 |
| Teifi | 2,285 | 1,014 | 776 | 286 | 912 |
| Tirymynach | 1,727 | 899 | 720 | 155 | 627 |
| Trefeurig | 1,717 | 906 | 740 | 194 | 557 |
| Tregaron a Ystrad Fflur | 1,823 | 1,022 | 868 | 149 | 606 |
| Ystwyth | 1,956 | 1,118 | 976 | 182 | 619 |

# Atodiad 2

Sgiliau Iaith Gymraeg Ceredigion yn ôl Ward – canran.

| | Medru Siarad Cymraeg (%) | Yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg (%) | Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig (%) | Dim sgiliau yn y Gymraeg (%) |
|---|---|---|---|---|
| Aberaeron and Aberarth | 56.3 | 45.8 | 9.0 | 32.0 |
| Aberporth and Y Ferwig | 49.0 | 39.8 | 8.6 | 40.2 |
| Aberystwyth Morfa a Glais | 29.5 | 24.9 | 5.6 | 62.4 |
| Aberystwyth Penparcau | 32.3 | 23.8 | 14.8 | 49.6 |
| Aberystwyth Rheidol | 27.6 | 22.5 | 8.7 | 60.5 |
| Beulah a Llangoedmor | 48.4 | 40.0 | 8.1 | 41.5 |
| Borth | 42.0 | 34.7 | 9.5 | 46.2 |
| Ceulan a Maesmawr | 52.3 | 44.3 | 9.3 | 35.9 |
| Ciliau Aeron | 52.1 | 44.9 | 9.8 | 36.9 |
| Faenor | 27.7 | 22.5 | 5.3 | 64.1 |
| Llanbedr Pont Steffan | 48.8 | 38.2 | 8.1 | 40.6 |
| Llanbadarn Fawr | 33.8 | 26.9 | 8.4 | 53.7 |
| Llandyfriog | 50.0 | 39.9 | 9.2 | 39.1 |
| Llandysilio a Llangrannog | 47.7 | 40.8 | 8.2 | 42.6 |
| Gogledd Llandysul a Troedyraur | 49.9 | 42.0 | 6.1 | 42.0 |
| De Llandysul | 53.1 | 43.8 | 7.7 | 36.1 |
| Llanfarian | 53.2 | 43.7 | 11.9 | 31.7 |
| Llanfihangel Ystrad | 52.8 | 43.6 | 6.8 | 38.2 |
| Llangeitho | 47.4 | 39.6 | 7.4 | 41.6 |
| Llangybi | 43.9 | 34.6 | 6.5 | 46.9 |
| Llannarth | 48.1 | 41.1 | 8.7 | 41.6 |
| Llanrhystyd | 52.5 | 44.8 | 7.3 | 36.6 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Llansanffraid (Ceredigion) | 47.7 | 39.7 | 8.3 | 41.7 |
| Llanwenog | 52.7 | 44.9 | 6.9 | 37.7 |
| Lledrod | 49.5 | 44.2 | 7.3 | 41.4 |
| Melindwr | 49.2 | 41.4 | 8.4 | 40.0 |
| Mwldan | 54.8 | 41.9 | 10.5 | 31.3 |
| Ceinewydd a Llanllwchaearn | 40.9 | 33.0 | 8.7 | 47.7 |
| Penbryn | 45.7 | 39.1 | 8.2 | 44.2 |
| Teifi | 44.4 | 34.0 | 12.5 | 39.9 |
| Tirymynach | 52.1 | 41.7 | 9.0 | 36.3 |
| Trefeurig | 52.8 | 43.1 | 11.3 | 32.4 |
| Tregaron a Ystrad Fflur | 56.1 | 47.6 | 8.2 | 33.2 |
| Ystwyth | 57.2 | 49.9 | 9.3 | 31.6 |